



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Adeiladu gwasanaeth prawf Cymreig

Rhan 2: Cymharu gwledydd

Greg Notman, Jack Price a Helen Tilley

Tachwedd 2024

Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at dystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i rhoi ar waith. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio dystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio mewn cysylltiad agos â llunwyr polisïau ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'r Ganolfan yn:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi, cyrchu a defnyddio dystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol sy'n gallu helpu i lywio a gwella polisïau;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio dystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio o ran mynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol; ac yn
- Tynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo dealltwriaeth o'r modd y gall dystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio polisïau a'u rhoi ar waith.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn <https://wcpp.org.uk/cy/>

Arianwyr Craidd



Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** yn 1883. Mae'n brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas lewyrchus, ac mae'n benderfynol o feithrin cydberthnasau rhyngwladol cadarn wrth iddi ddangos ei hymrwymiad i Gymru.



Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi ffynnu.



Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am agweddau allweddol ar fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

Cynnwys

Crynodeb	4
Cyflwyniad	5
Traws-gymhariaeth o wasanaethau prawf yn Ewrop	8
Awstria	8
Gwlad Belg	9
Denmarc	11
Y Ffindir	12
Lwcsembwrg	14
Yr Iseldiroedd	15
Gogledd Iwerddon	17
Gweriniaeth Iwerddon	18
Yr Alban	20
Slofenia	23
Y Swistir	23
Myfyrdodau ar gyfer Cymru	27
Gweithlu	27
Llywodraethu rhanbarthol	28
Rheolaeth a goruchwyllo	29
Cyllid	30
Rhyngweitho â phwerau a gadwyd yn ôl	30
Materion trawsffiniol	31
Gweledigaeth hirdymor	31
Casgliad	34
Cyfeiriadau	35

Crynodeb

- Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datganoli prawf a chyfiawnder ieuenctid. Yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU yn 2024, ymrwymodd Plaid Lafur y DU i edrych ar y posibilrwydd o ddatganoli'r gwasanaeth prawf i Gymru.
- Comisiynwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i edrych ar opsiynau a llwybrau ar gyfer datganoli. Yn Rhan 1, cynigiasom dri phrif lwybr ar gyfer datganoli, yn canolbwyntio ar weithredu yn y tymor byr i ganolog.
- Yr adroddiad hwn yw Rhan 2 ac mae'n cynnwys astudiaethau achos o wledydd eraill yn y DU ac Ewrop. Gallai deall gwahanol fodelau o systemau prawf yn Ewrop ddarparu mewnwelediad a gwersi pwysig er mwyn ffurfio gwasanaeth prawf datganoledig.
- Mae profiad rhyngwladol yn awgrymu y gall datganoli ddod â newidiadau i ymarfer a diwylliant sefydliadol prawf. Mae'n bosibl hefyd y gallai alluogi gwasanaeth prawf Cymreig i gyflawni'r weledigaeth hirdymor a amlinellwyd gan Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf.
- Yn ystod y degawd diwethaf, mae nifer o wledydd Ewrop wedi gwneud newidiadau sylfaenol i'r ffordd y maent yn trefnu ac yn gweithredu eu gwasanaethau prawf, gan gynnwys newidiadau i HMPPS yng Nghymru a Lloegr. Roedd llawer o'r newidiadau hyn mewn ymateb i bwysau ariannol o ganlyniad i gynyddu.
- Gall datganoli achosi dyblygu ar draws asiantaethau a thrwy hynny gynyddu costau gweithredu. Er hyn, mae profiad mewn lleoedd eraill yn awgrymu y gellir lleihau dyblygu i ryw raddau drwy ddulliau caffael ar y cyd. Pwysleisir hefyd bod systemau TG cydnaws yn bwysig er mwyn atal problemau ar draws ffiniau newydd a rhwng asiantaethau datganoledig.
- Mae llywodraethiant rhanbarthol systemau prawf yn Ewrop yn amrywio. Mae gan yr Alban a'r Swistir systemau datganoledig, ond maent wedi ceisio cysoni dulliau gweithredu yn ddiweddar. Mae gan wledydd eraill, fel y Ffindir, strwythur canoledig at ei gilydd ag ymreolaeth ranbarthol wrth gomisiynu partneriaid lleol.
- Pa bynnag fodel a ddewisir ar gyfer datganoli, mae cydweithredu a chydweithio â HMPPS ac asiantaethau eraill y llywodraeth yn hanfodol er mwyn sicrhau cyfnod pontio dirwysr ac atal canlyniadau anfwriadol.

Cyflwyniad

Ar hyn o bryd, mae'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru yn gweithredu o fewn un awdurdodaeth ar gyfer Cymru a Lloegr, â llywodraeth y DU yn gyfrifol am weinyddu cyfiawnder. Mae Llywodraeth Cymru, yn dilyn argymhellion Comisiwn Thomas, yn ceisio datganoli cyfiawnder yn llawn i Gymru (Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, 2019; Llywodraeth Cymru, 2022). Yn unol â hyn, argymhellodd Comisiwn y Blaid Lafur ar Ddyfodol y DU, dan gadeiryddiaeth Gordon Brown, y dylid datganoli cyfiawnder ieuencid a'r gwasanaeth prawf i Gymru (Commission on the UK's Future, 2022).

Mewn ymateb i'r argymhellion hyn, ac yn dilyn casgliadau'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn credu bod gobaith gwirioneddol y caiff agweddau ar y system gyfiawnder eu datganoli yn y dyfodol agos. O ganlyniad, mae'n paratoi ar gyfer y posibilrwydd hwn drwy fabwysiadu dull graddol, gan ddechrau â datganoli'r gwasanaeth prawf a chyfiawnder ieuencid (Llywodraeth Cymru, 2024).

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi cael y dasg o gynnal ymchwil i gefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru a'i chynghorydd arbenigol annibynnol, y Fonesig Vera Baird CB (Llywodraeth Cymru, 2024). Bwriedir i'r ymchwil hwn hefyd ategu gwaith a wnaed gan Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf (PDG) yng Nghanolfan Troseddu a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru, sydd wedi gosod gweledigaeth ar gyfer gwerthoedd, llywodraethu, ac arferion gwasanaeth prawf datganoledig yn y dyfodol (Probation Development Group, 2023).

Mae ein hymchwil yn canolbwyntio'n bennaf ar y **mecanweithiau a'r llwybrau cyflawni** ar gyfer datganoli, gan fynd i'r afael â phedwar prif gwestiwn:

1. Pa fanteision posibl a allai ddeillio o ddatganoli'r gwasanaeth prawf i Gymru?
2. Pa ddulliau a modelau o gyflawni'r gwasanaeth prawf a allai wireddu manteision posibl datganoli orau?
3. I ba raddau y byddai modd gwireddu'r manteision heb ddeddfwriaeth sylfaenol?
4. Pa ystyriaethau anneddfwriaethol y dylid eu hystyried wrth ddatganoli'r gwasanaeth prawf, a sut y gellid mynd i'r afael â nhw?

Er mwyn ateb y cwestiynau hyn, rydym wedi defnyddio llenyddiaeth academiaidd a llenyddiaeth lwyd sy'n bodoli'n barod a chynnal cyfweiliadau â rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys:

- Academyddion ac ymchwilwyr yn y DU a thu hwnt;

- Ymarferwyr yn y DU, o Gymru a Lloegr; yr Alban; a Gogledd Iwerddon; ac
- Ymarferwyr o wledydd eraill yn Ewrop¹.

Mae ein hadroddiad wedi'i rannu'n ddwy ran. Mae **Rhan 1** yn edrych ar fanteision posibl datganoli a'r ystyriaethau ymarferol y byddai angen rhoi sylw iddynt ochr yn ochr â datganoli (Price, Notman, a Tilley, 2024). Mae hefyd yn cyflwyno opsiynau gwahanol ar gyfer datganoli prawf.

Yr adroddiad hwn yw **Rhan 2**, sy'n amlinellu sut y mae gwahanol wledydd yn Ewrop a gwledydd eraill cyfagos yn trefnu eu gwasanaethau prawf. Gan ddibynnu ar yr opsiwn a ddewisir ar gyfer datganoli prawf, gallai Llywodraeth Cymru gael cryn dipyn o hyblygrwydd wrth ddylunio gwasanaeth prawf Cymreig. Gallai deall gwahanol fodolau a strwythurau gwasanaethau prawf mewn gwledydd eraill ddarparu gwersi gwerthfawr ar gyfer sefydlu gwasanaeth datganoledig yng Nghymru.

Rydym yn cyflwyno cymhariaeth o'r ffordd y mae gwahanol wledydd yn trefnu gwahanol wasanaethau prawf, yn cael ei dilyn gan drafodaeth o'r goblygiadau ar gyfer Cymru, yn seiliedig ar y saith ystyriaeth ymarferol allweddol ar gyfer datganoli y tynnwyd sylw atynt yn Rhan 1. Dewiswyd yr achosion o wledydd Ewropeaidd a gyflwynir yma oherwydd nodweddion gwahanol eu systemau prawf, sy'n eu gwneud yn fewnwelediadau defnyddiol i Lywodraeth Cymru ac eraill sydd â diddordeb brwd mewn datganoli'r gwasanaeth prawf i Gymru.

Gan fod ein hymchwil yn canolbwyntio ar ystyriaethau strategol lefel uchel, yn hytrach nag ystyried cyflawni swyddogaethau prawf yn fanwl, mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â strwythur sefydliadol yn bennaf, ac mae llai o bwyslais ar weithrediadau o ddydd i ddydd.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn tynnu ar lenyddiaeth gan Gydffederasiwn Prawf Ewrop (CEP) a'i disgrifiadau o systemau prawf yn Ewrop. Er 2008, mae disgrifiadau ar gyfer pob gwlad Ewropeaidd wedi'u diweddarau â datblygiadau newydd, gan olygu mai'r casgliad hwn yw un o'r rhai mwyaf cyfredol sydd ar gael. Mae'r CEP yn sefydliad aelodaeth rhyngwladol, sy'n cynnwys sefydliadau sy'n gweithio ym maes prawf, academyddion, a rhanddeiliaid eraill. Mae rhai o'i nodau'n cynnwys:

- Siarad o blaid prawf ar lefel ryngwladol;
- Canolbwyntio ar ledaenu polisi, gwybodaeth ac arbenigedd ym maes prawf;

¹ Cafwyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer y prosiect hwn gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol Fusnes Caerdydd ym Mhrifysgol Caerdydd.

- Dod â'r sail wybodaeth, ymchwil ac ymarfer at ei gilydd er mwyn gwella dysgu a chanlyniadau;
- Adeiladu partneriaethau effeithiol ar draws y sector cyfiawnder troseddol yn Ewrop;
- Cynrychioli'r sector prawf i sefydliadau Ewropeaidd.

Mae HMPPS yn aelod o'r CEP ar hyn o bryd a phe bai Gwasanaeth Prawf newydd yn cael ei sefydlu yng Nghymru gallai yntau ymuno, â chyfleoedd i ddysgu o arferion mewn gwledydd eraill yn Ewrop ac adeiladu partneriaethau â gwledydd eraill.

Traws-gymhariaeth o wasanaethau prawf yn Ewrop

Awstria

Cyfrifoldeb y llywodraeth ffederal yw gwasanaethau prawf yn Awstria ac maent wedi bod yn cael eu darparu gan sefydliad preifat nid-er-elw NEUSTART er 1994. Mae contract rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a NEUSTART yn amlinellu cyfrifoldebau, swyddogaethau, hawliau, dyletswyddau, a chymwyseddau'r ddau bartner (Koss a Grafl, 2013). Er bod tua 75% o'r cyllid yn dod gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder Ffederal, ceir cyllid ychwanegol gan weinidogaethau, taleithiau, a rhanbarthau dinesig ffederal eraill (NEUSTART, 2023).

Mae NEUSTART wedi'i drefnu mewn strwythur matrices, ag adrannau canolog sy'n gyfrifol am drefnu a gosod safonau ar draws y sefydliad, tra mae asiantaethau rhanbarthol yn rheoli gweithgareddau yn eu hardaloedd perthynol. Mae yna hefyd adrannau canolog sy'n ymdrin â swyddogaethau penodol megis cyllid, hyfforddi a datblygu staff, ac adnoddau dynol.

Mae'n ofynnol i staff sy'n gweithio fel swyddogion prawf gael cymhwyster gwaith cymdeithasol o uwch goleg technegol, ac mae NEUSTART wedi datblygu gweithdrefn recriwtio safonedig ar gyfer cyflogi staff (Koss a Grafl, 2013). Mae gweithwyr newydd yn cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddi dair wythnos a rhoddir mentor iddynt ar gyfer arweiniad ymarferol.

Yn ychwanegol at hyn, mae tua 1,000 o wirfoddolwyr sy'n goruchwyllo tua thraean o'r holl achosion prawf – y rhai llai cymhleth gan mwyaf. Caiff y gwirfoddolwyr hyn eu hystyried yn weithwyr prawf cwbl gyfrifol. Maent wedi'u hyfforddi i safonau proffesiynol, a thelir swm lwmp o dreuliau iddynt am bob cleient y maent yn ei oruchwyllo (Hönig a Heemskerk, 2019).

Mae gan NEUSTART adran fewnol sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog Gweithredol, ynghyd ag archwilwyr wedi'u cyflogi â chydsyniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Koss a Grafl, 2013). Mae gan nifer o wahanol gyrff ddiddordeb mewn perfformiad, felly caiff data eu storio'n ganolog er mwyn ymateb i ymholiadau a datblygu adroddiadau perfformiad. Dengys dadansoddiad hydredol bod cyfraddau atgwmpo wedi gwella rhwng 2008 a 2018 ar gyfer y rhai ar ddedfrydau cymunedol a mathau eraill o gymorth prawf (Hofinger a Peschak, 2018). Digwyddodd y gwelliant

hwn er gwaethaf pwysau i dorri costau a arweiniodd at ailstrwythuro sefydliadol ac 'optimeiddio'r gwasanaethau' o ganlyniad i gyni (Koss a Grafl, 2018: 9).

Gwlad Belg

Yn 1996, fel rhan o fesurau i wella effeithlonrwydd, tryloywder, a hyder y cyhoedd, unwyd chwe asiantaeth a oedd yn gyfrifol am wasanaethau gwaith cymdeithasol barnwrol, gan gynnwys prawf, cymorth i ddioddefwyr, gwasanaethau seicogymdeithasol carchardai, a chyfiawnder adferol, i ffurfio Tai Cyfiawnder sydd â swyddfeydd lleol ond sydd dan reolaeth ffederal (Bauwens a Devos, 2015). Roedd y Tai Cyfiawnder hyn yn gyfrifol am wasanaethau prawf tan 2014, pan gawsant eu datganoli o'r lefel ffederal i'r cymunedau ieithyddol (y cymunedau Ffleminaidd, Ffrengig ac Almaenig) o ganlyniad i drafodaethau gwleidyddol wrth ffurfio clymblaid lywodraethol (Justice Trends, 2018). Yn ogystal â phrawf, mae'r cymunedau'n gyfrifol am ddedfrydau gohiriedig, tagio electronig, gwrth-eithafiaeth, a swyddogaethau eraill a fwriadwyd er mwyn gwneud cyfiawnder yn fwy hygyrch (Jeunejean, 2019).

Er hyn, mae rhai swyddogaethau cyfiawnder troseddol, gan gynnwys plismona, llysoedd, a dedfrydu, yn parhau'n gyfrifoldeb i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ffederal. Mae achos Gwlad Belg felly yn berthnasol iawn i Gymru, gan y byddai modelau datganoli arfaethedig, am y tro beth bynnag, yn gweld swyddogaethau tebyg yn cael eu datganoli i Gymru ac yn cael eu cadw gan San Steffan. Trosglwyddwyd cyfrifoldeb yn niwedd 2014, ond nid oedd llawer o wybodaeth gyhoeddus ynglŷn â sut y byddai gweithredu'n llwyddiannus yn edrych ym mhob rhanbarth, na beth oedd yn cael ei wneud er mwyn paratoi ar gyfer datganoli (Bauwens a Devos, 2015).

Ers datganoli, mae'r cymunedau wedi gallu dilyn gwahanol ddulliau methodolegol. Er enghraifft, mae Fflandrys yn canolbwyntio mwy ar reoli risg, ac mae Walonia yn rhoi pwyslais ar ymatal a gwerthoedd gwaith cymdeithasol (Parlement de la Communauté Française, 2023; Uzieblo, 2023). Disgrifiwyd hyn fel caniatáu mwy o 'ryddid methodolegol', ac mae'n bwysig ei ystyried yng nghyd-destun gweithredu gweledigaeth hirdymor sy'n seiliedig ar ymatal ar gyfer gwasanaeth prawf yng Nghymru. Mae'r gwahaniaeth yn sylweddol, oherwydd un o'r prif bryderon cyn datganoli oedd y byddai gwaith prawf yn mynd yn fwy cosbol. Roedd pryder hefyd ynglŷn â cholli ymreolaeth broffesiynol ac ofnid y byddai'r gwasanaeth yn fwy tameidiog (Bauwens a Roose, 2017).

Fodd bynnag, cyfyngir ar yr hyblygrwydd hwn oherwydd bod pwerau dedfrydu a gofynion y llysoedd yn cael eu pennu ar lefel ffederal. Ni all y gwasanaeth prawf reoli ei fewnlif, ac mae hynny'n golygu y gellir gorlwytho'r system yn sydyn iawn (Devos,

2013). Ni ellir gwarantu ychwaith y byddai cynnydd mewn llwyth achosion o ganlyniad i'r gorlif hwn, creu troseddau newydd, neu ffyrdd gwahanol o ddedfrydu yn denu cyllid cyfatebol. O ganlyniad, gallai gwasanaeth prawf datganoledig gael ymreolaeth dros fethodoleg ond nid dros weithrediad.

Pwysleisiwyd bod sefydlogrwydd gwleidyddol yn ffactor pwysig wrth greu gwasanaeth prawf datganoledig, ac mae ymdrechion sylweddol wedi'u gwneud er mwyn codi proffil y gwasanaeth prawf yng Ngwlad Belg, gan nad yw ei rôl mor amlwg â charchardai neu'r heddlu, er enghraifft, ar gyfer pobl y tu allan i'r system gyfiawnder (Justice Trends, 2018). Bu ymdrech hefyd i ymgysylltu â'r farnwriaeth a chynyddu cydweithrediad, fel nad ydynt yn cael eu gadael 'ym mhen draw'r "gadwyn gosbi"' (Justice Trends, 2018). Mae'r trosiad hwn yn adlewyrchu sefyllfa prawf fel yr asiantaeth olaf y mae troseddwr yn rhngweithio â hi yn y broses cyfiawnder troseddol, a hefyd y diffyg pwysigrwydd ymddangosiadol o'i gymharu ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill. Yng Ngwlad Belg nid yw effeithiau ar y system brawf yn cael eu hystyried yn aml wrth wneud newidiadau i bolisi ar y lefel ffederal, ac mae hynny'n golygu ei bod yn hawdd iawn iddo gael ei orlwytho. Defnyddiwyd trosiadau tebyg i ddisgrifio rôl prawf mewn gwledydd eraill. O ganlyniad, pwysleisiwyd bod adeiladu cysylltiadau cryf ag asiantaethau a systemau prawf eraill yn ffordd o godi proffil prawf, er ei fod yn cael ei weld fel partner anghyfartal o'i gymharu â rhannau eraill o'r system cyfiawnder troseddol.

Dywedodd y rhai a gyfwelwyd hefyd fod adeiladu perthnasoedd llywodraethu ffurfiol da o fewn fframweithiau cytunedig yn fuddiol er mwyn rheoli'r broblem hon a datblygu rhngweithio â sefydliadau cyfiawnder troseddol a gadwyd yn ôl yn ogystal â gwasanaethau datganoledig. Dywedwyd bod hyn yn arbennig o bwysig yng nghamau cynnar datganoli, wrth i'r perthnasoedd a'r rhwydweithiau presennol fynd yn llai pwysig, pan nad yw perthnasoedd naturiol, newydd wedi'u sefydlu eto. Yn ogystal â chytundebau ffurfiol ar rannu data gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, mae cyd-gontractau â'r cymunedau eraill ar fonitro electronig a meddalwedd er mwyn sicrhau bod modd trosglwyddo troseddwr ar draws systemau yn rhwydd ac arbed costau.

O ganlyniad i'r uno yn 1996, daeth pob un o'r staff gweithredol yn y Tai Cyfiawnder yn swyddogol yn 'gynorthwywyr cyfiawnder' (Bauwens a Devos, 2015: 7). Mae hyn yn cynnwys ystod eang o rolau, megis gweithwyr cymdeithasol, nyrsys iechyd meddwl, cynorthwywyr seicoleg, a gwyddonwyr cymdeithasol fel troseddegwyr a chymdeithasegwyr (Bauwens a Devos, 2015). Beth bynnag eu harbenigedd, mae cynorthwywyr cyfiawnder newydd yn cwblhau cwrs hyfforddi mewnol sy'n ymdrin â gwerthoedd, methodoleg, a moeseg y Tai Cyfiawnder fel rhan o'r broses gynefino (Bauwens a Devos, 2015).

Denmarc

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Denmarc (DPPS) yn un o nifer o adrannau dan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae'n cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Cyffredinol. Yn 1973, daeth y gwasanaeth prawf yn rhan o'r Adran Garchardai, a ddaeth wedyn yn Adran Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, gan wneud swyddogion prawf yn weithwyr sector cyhoeddus (Storgaard a Skov, 2017). Er gwaetha'r cysylltiad hir hwn rhwng y gwasanaethau carchardai a phrawf, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar y pryd, 'hyd yn oed mewn system fel yr un yn Nenmarc, lle mae carchardai a phrawf wedi'u cyfuno dan reolaeth ar y cyd ac mewn system ar y cyd ... mae rhagfarn yn bodoli o hyd rhwng staff carchardai a staff prawf... i ryw raddau, mae diwylliant "ni a nhw" o hyd' (Rentzmann, 2011: 4). Roedd yr Adran wedi'i threfnu yn ôl swyddogaeth, felly er bod carchardai a phrawf yn cael eu llywodraethu gyda'i gilydd, nid oedd y cysylltiadau rhyngddynt yn gryf. Yn 2011, pwysleisiodd Archwilydd Cyffredinol Denmarc fod angen i'r Adran 'ganolbwyntio ar y cydweithredu rhwng y mathau amrywiol o sefydliadau' (Rigsrevisionen, 2011: 5). Pwysleisiwyd hefyd bod cysylltiadau â llywodraeth leol, sy'n darparu gwasanaethau cymdeithasol, yn faes yr oedd angen ei gryfhau.

Yn dilyn adolygiad cyllidebol, dechreuodd ad-drefniad cynhwysfawr o'r DPPS yn 2012, gan gynnwys ailstrwythuro o strwythur yn seiliedig ar swyddogaethau, tuag at strwythur daearyddol (Storgaard a Skov, 2017). Yn hytrach na threfnu'r adran yn ôl swyddogaeth, ffurfiwyd pedair asiantaeth ranbarthol, i oruchwylio carchardai a phrawf yn eu hardaloedd lleol. Yn 2024, unwyd y pedair asiantaeth ranbarthol hyn hefyd i ffurfio dwy asiantaeth gwasanaeth cywirol (Retsinformation, 2023).

Yn y ddwy asiantaeth gwasanaeth cywirol, mae deunaw o sefydliadau. Mae pob sefydliad yn cynnwys gwahanol gyfuniadau o garchardai, swyddfeydd prawf, canolfannau cadw ieuenctid, a thai hanner ffordd (Storgaard a Skov, 2018). Mae gan bob un o'r sefydliadau hyn uwch arweinydd a phennaeth i bob uned, sy'n arwain at rywfaint o ddyblygu yn y strwythur arweinyddiaeth. Yn y rhan fwyaf o'r sefydliadau, mae prawf yn y lleiafrif, o gymharu â charchardai a chyfleusterau cadw eraill, ac mae hynny'n codi cwestiynau i bob pwrpas ynglŷn â'r graddau y gellir clywed llais y gwasanaeth prawf.

Mae bron bob gweithiwr prawf yn Nenmarc wedi'i hyfforddi fel gweithiwr cymdeithasol (Storgaard a Skov, 2017). Ond er gwaetha'r cymwysterau hyn, mae pryder nad yw'r hyfforddiant yn canolbwyntio'n ddigonol ar sgiliau goruchwylio, o ystyried y nifer cynyddol o ffyrdd y gall troseddwydr dreulio eu dedfrydau (Rentzmann, 2011).

Dyrennir cyllid i'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf yn unol â chontract amlflwydd, sy'n ymdrin â chyflogau, darparu gwasanaeth, a chostau eraill. Dan y model blaenorol â phedair asiantaeth ranbarthol, roedd y rhan fwyaf o'r gyllideb yn cael ei dosbarthu i'r rhanbarthau, â phob rhanbarth yn gyfrifol am ei wariant ei hun, ac yn dosbarthu cyllid yn eu tro i'r sefydliadau, gan gynnwys cyllid ar gyfer costau staffio (Storgaard a Skov, 2017). Roedd hyn yn caniatáu ymreolaeth sylweddol i'r rhanbarthau, er eu bod yn gorfod cydymffurfio â thargedau a osodwyd ar sail blaenoriaethau ac egwyddorion yr Adran Carchardai a Phrawf yn ei chyfanrwydd (Storgaard a Skov, 2017). Tan 2015, roedd y Gwasanaeth Prawf a Charchardai yn atebol i'r Gweinidog Cyfiawnder, ond mae bellach yn adran yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Cynhelir arolygon blynyddol hefyd i gasglu barn troseddwr yn y system brawf (Storgaard a Skov, 2017).

Y Ffindir

Dechreuodd gwaith prawf yn y Ffindir yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan ffurfiwyd sefydliad elusennol Cristnogol o'r enw Cymdeithas Carchardai'r Ffindir (Vesterbacka, 2014). Rhoddwyd dyletswyddau statudol iddo yn y 1930au a dechreuodd dderbyn mwy a mwy o gyllid gan y llywodraeth i gyflawni ei ddyletswyddau tan iddo ddod yn rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2001 (Linderborg et al., 2020).

Ers dod yn gorff swyddogol i'r llywodraeth, mae'r asiantaethau carchardai a phrawf wedi cydweithio i ddatblygu egwyddorion a gwerthoedd ar y cyd i lywio'r ddau sefydliad (Vesterbacka, 2014). Cryfhaodd hyn y berthynas rhwng y sefydliadau, ac yn 2010, unwyd cyfrifoldebau'r gwasanaethau carchardai a phrawf i greu un corff gweinyddol, yr Asiantaeth Sanctsiynau Troseddol (Prison and Probation Service of Finland, 2023). Credid bod nodau a gwerthoedd cyffredin yn bwysig i lwyddiant y cydweithredu hwn, ac roedd eu datblygu cyn uno yn gam canolraddol pwysig (Vesterbacka, 2014).

Yn ogystal â chaniatáu gwell cydgysylltu a chysondeb rhwng asiantaethau, roedd y weinyddiaeth ar y cyd yn rhyddhau adnoddau drwy osgoi dyblygu ar y lefelau gweinyddol a rheolaethol (Linderborg, Tolvanen ac Andersson, 2020). Mae cyd-asiantaeth sy'n gyfrifol am swyddogaethau carchardai a phrawf yn gyffredin ar draws Sgandinafia, ac mae hefyd yn bodoli yn Nenmarc, Norwy, a Sweden (Ploeg a Sandlie, 2011).

Mae dwy gangen y system yn ceisio integreiddio eu gwaith drwy weithgareddau a rennir a thrwy gydweithredu dwys. Mae'r gwasanaeth unedig yn cynnwys sefydliad

hyfforddi canoledig ar gyfer staff carchardai a phrawf, yn ogystal ag uned orfodi genedlaethol sy'n gyfrifol am fonitro dedfrydau yn y carchar ac yn y gymuned. Er bod perthnasoedd yn bodoli ers tro â llysoedd, erlynwyr, ac asiantaethau eraill y llywodraeth, datblygwyd safonau ansawdd a phrosesau cenedlaethol ar gyfer cydweithredu a rhwydweithio yn 2014 (Linderborg, Tolvanen ac Andersson, 2020).

Yn 2022, ailenwyd yr Asiantaeth Sancsiynau Troseddol yn Wasanaeth Carchardai a Phrawf y Ffindir. Symudodd y gwasanaeth ar y cyd hefyd o'r tri chorff rhanbarthol i Adran Gweithrediadau Craidd ganoledig, yn goruchwyllo un ar ddeg o Ganolfannau Carchardai a Phrawf rhanbarthol, pob un yn gyfrifol am weithredu a chydweithredu â rhanddeiliaid lleol (Prison and Probation Service of Finland, 2022). Roedd y newid hwn yn cysoni'r Canolfannau â llywodraethau rhanbarthol er mwyn cefnogi mwy o gydweithredu â gwasanaethau ar y lefelau hynny, gan gynnwys lles cymdeithasol a gofal iechyd (Prison and Probation Service of Finland, 2022). Un enghraifft o'r newid hwn yw ymdrech y llywodraeth ganolog i sefydlu pwyntiau gwasanaeth ar y cyd, â phrawf yn cael ei gydleoli ochr yn ochr â gwasanaethau eraill megis yswiriant cymdeithasol, canolfannau gwaith, a swyddfa dreth (Prison and Probation Service of Finland, 2024).

Pennir blaenoriaethau a thargedau ar y cyd gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i adlewyrchu blaenoriaethau'r llywodraeth, ac mae'r asiantaeth hefyd yn cael ei monitro gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ogystal â'i thîm archwilio mewnol ei hun (Linderborg, Tolvanen ac Andersson, 2020). Mae hyn yn cynnwys cynllun tair blynedd, yn cael ei gynhyrchu ar y cyd, sy'n cynnwys cytundeb ar y gyllideb.

Fel gwasanaethau prawf eraill yn Ewrop, mae pwysau ar hyn o bryd wrth geisio recriwtio a chadw staff medrus (Confederation of European Probation, 2023; Rikosseuraamuslaitos, 2024). Fel arfer mae gan swyddogion prawf radd mewn gwaith cymdeithasol, ac mae cryn dipyn o gystadleuaeth am weithwyr rhwng cyflogwyr, yn enwedig ar y lefel iau (Linderborg, Tolvanen ac Andersson, 2020; Confederation of European Probation, 2023). Mae'r sefyllfa hon yn waeth oherwydd blaenoriaethau gwleidyddol Llywodraeth bresennol y Ffindir, sy'n ffafrio polisïau cyfiawnder mwy cosbol (Confederation of European Probation, 2023). O ganlyniad, mae'r gwasanaeth prawf yn gorfod darganfod ffyrdd newydd o ddygymod â chynnydd posibl yn llwyth achosion staff.

Lwcsembwrg

Mae Gwasanaeth Prawf Lwcsembwrg yn rhan o'r Gwasanaeth Canolog ar gyfer Cymorth Cymdeithasol (SCAS), sy'n adrodd i Swyddfa'r Erlynydd Cyhoeddus Cyffredinol. Mae'r SCAS yn ymdrin â gwasanaethau cymdeithasol cyfiawnder amrywiol, gan gynnwys adroddiadau personoliaeth, cymorth i ddioddefwyr, a'r gwasanaeth amddiffyn ieuenctid. Mae'n rhan o'r Erlyniad Cyffredinol dan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae wedi'i rannu'n ddwy adran: y naill yn canolbwyntio ar droseddwy'r â gorchmynion cyn treial, cymorth yn y carchar, a goruchwyliaeth ar ôl rhyddhau; a'r llall yn canolbwyntio ar droseddwy'r sy'n gwneud gwasanaeth cymunedol (Bisenius et al., 2021).

Oherwydd ei fod wedi'i leoli yn swyddfa'r erlynydd, mae pwyslais ar berthnasoedd â sefydliadau nid-er-elw er mwyn darparu cefnogaeth a gwasanaethau, gan gynnwys hosteli, canolfannau gwaith, a chymorth camddefnyddio sylweddau. Er bod y perthnasoedd hyn â sefydliadau nid-er-elw yn dda ar y cyfan, mae bod yn rhan o swyddfa'r erlynydd yn golygu at ei gilydd nad yw rôl prawf yn cael ei deall yn dda iawn fel arall, yn enwedig mewn cymhariaeth â charchardai (Bisenius et al., 2021).

Nid oes corff allanol sy'n llywodraethu'r gwasanaeth prawf, ar wahân i'w adroddiadau i Swyddfa'r Erlynydd Cyhoeddus Cyffredinol, er bod materion ariannol yn cael eu harchwilio gan y Llys Archwilwyr, corff cynorthwyl i'r senedd (Bisenius et al., 2021).

Oherwydd bod poblogaeth Lwcsembwrg yn fach dim ond 28 o bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth prawf, gan gynnwys 11 swyddog prawf (cyfwerth ag 16.7 o rolau amser llawn) (Ministère de la Justice du Luxembourg, 2024). Rhennir y swyddogion prawf yn ddau grŵp: un sy'n rheoli achosion lle nad yw troseddwy'r wedi bod yn y carchar o'r blaen, a'r llall yn canolbwyntio ar droseddwy'r sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar neu sy'n dal yn y carchar (Bisenius et al., 2021). Nid oes llawer o ymchwil academiaidd wedi'i wneud i system brawf Lwcsembwrg, ond dangosodd archwiliad mewnol yn 2015 fod prinder staff sylweddol ar draws adrannau'r SCAS (Bisenius et al., 2021).

Mae nifer sylweddol o droseddwy'r o'r tu allan i Lwcsembwrg yn cael eu cefnogi gan wasanaeth prawf Lwcsembwrg, ac roedd 43% o'r carcharorion a gynorthwywyd yn 2022 yn wladolion tramor, llawer ohonynt yn byw dros y ffin yn Ffrainc, Gwlad Belg, a'r Almaen (Ministère de la Justice du Luxembourg, 2024). Mae gwasanaeth prawf Lwcsembwrg yn goruchwyllo rhai troseddwy'r sy'n gweithio yn Lwcsembwrg ond sy'n byw dros y ffin. Er bod ymdrechion wedi'u gwneud i gryfhau cydweithio â gwasanaethau prawf cyfagos, trefniadau anffurfiol gan mwyaf yw'r rhain o hyd (Bisenius et al., 2021).

Yr Iseldiroedd

Mae'r gwasanaeth prawf yn yr Iseldiroedd yn cynnwys tri sefydliad preifat: Reclassering Nederland, Gofal Iechyd Meddwl a Thriniaeth Camddefnyddio Sylweddau y Gwasanaeth Caethiwed a Phrawf (SVG), a gwasanaeth Amddiffyn Ieuenctid a Phrawf Byddin yr Iachawdwriaeth. Comisiynir y sefydliadau hyn gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sydd â chyfrifoldeb gwleidyddol, ond mae'r tri gwasanaeth yn gweithredu yn annibynnol ar ei gilydd (de Kok, Tigges a van Kalmthout, 2020).

Reclassering Nederland yw'r sefydliad mwyaf o'r tri, yn derbyn tua 60% o'r gyllideb ac yn ymdrin â 71% o'r holl droseddwyr yn 2019 (de Kok, Tigges a van Kalmthout, 2020). Mae'n trefnu ei weithrediadau dros bum rhanbarth, pob un yn cynnwys nifer o daleithiau, a chafodd ei sefydlu yn 1994 ar ôl uno sefydliadau prawf lleol, llai a oedd wedi'u ffurfio yn wreiddiol fel sefydliadau crefyddol.

Tra bo sefydliadau eraill wedi uno i ffurfio Reclassering Nederland, mae Byddin yr Iachawdwriaeth ac SVG wedi cadw eu hunaniaeth eu hunain, ac maent yn credu bod yr hunaniaeth hon yn hollbwysig er mwyn gweithio'n effeithiol â'u grwpiau targed penodol (de Kok, Tigges a van Kalmthout, 2020). Mae SVG yn canolbwyntio'n bennaf ar unigolion â phroblemau caethiwed neu sydd angen cymorth iechyd meddwl, gan ymdrin â thua 20% o'r troseddwyr yn 2019 (de Kok, Tigges a van Kalmthout, 2020). Mae Gwasanaeth Gofal Ieuenctid a Phrawf Byddin yr Iachawdwriaeth yn gweithio gydag aelodau mwy bregus cymdeithas, yn enwedig rhai sydd wedi profi digartrefedd; dyrennir tua 10% o'r troseddwyr i Fyddin yr Iachawdwriaeth.

Er bod y tri sefydliad yn gweithredu'n annibynnol, maent yn cydweithio mwy a mwy ar feysydd cyffredin sy'n achosi pryder, megis hyfforddiant staff, rheoli gwybodaeth, ymchwil, a TG (Tweede Kamer der Staten-Generaal, 2014). Mae swyddfeydd ar y cyd neu 'bwyntiau mewnlif' wedi'u lleoli ym mhob ardal llys lle caiff troseddwyr eu dyrannu i un o'r sefydliadau prawf. Er bod pob sefydliad, mewn theori, yn gweithio gyda'i grwpiau targed, nid yw'r gwahaniaeth hwn i'w weld mor aml yn ymarferol (de Kok, Tigges a van Kalmthout, 2020).

Yn ogystal, mae Reclassering Nederland yn gweithredu desg ryngwladol ar ran y tri sefydliad, gan gynorthwyo awdurdod canolog (rhan o'r Gwasanaeth Erlyn Cyhoeddus) i benderfynu a ellir trosglwyddo gorchymyn prawf troseddwr; mae'r awdurdod canolog yn goruchwyllo'r trosglwyddiad (de Kok, Tigges a van Kalmthout, 2020). Mae Awdurdod Canolog yr Iseldiroedd wedi wynebu anawsterau yn y gorffennol wrth baratoi a gweithredu trosglwyddiadau, gan nad oes gan lawer o wledydd swyddogaeth benodedig ar gyfer hyn. Fodd bynnag, mae cynadleddau wedi'u trefnu â gwledydd cyfagos a gwledydd y gwneir cais iddynt yn aml er mwyn

symleiddio'r prosesau hyn a'u gwneud yn fwy effeithlon (de Kok, Tigges a van Kalmthout, 2020).

Mae gan bob swyddog prawf gymhwyster addysg uwch, fel arfer mewn gwaith cymdeithasol, gwasanaethau cyfreithiol cymdeithasol, neu droseddeg, ac mae'n ofynnol i swyddogion prawf gael gradd baglor (de Kok, Tigges a van Kalmthout, 2020). Mae swyddogion prawf sydd newydd gymhwyso yn mynd drwy broses hyfforddiant mewn swydd sy'n seiliedig ar gamau.

Bob blwyddyn, mae'r Gweinidog Cyfiawnder yn anfon llythyr at y tri sefydliad prawf, yn eu gwahodd i gyflwyno cynllun blynyddol a chyllideb, ac yn tynnu sylw at flaenoriaethau polisi'r Gweinidog ar gyfer y gwasanaeth prawf (de Kok, Tigges a van Kalmthout, 2020). Mae pob sefydliad yn cyflwyno cais am gyllid, ac yn ychwanegu ei flaenoriaethau ei hun at y rhai a bennwyd gan y Gweinidog, â'r cymhorthdal yn cael ei ddyfarnu ar ddiwedd y flwyddyn. Cyn hyn, roedd cyllid yn seiliedig ar nifer y tasgau prawf a oedd yn cael eu cwblhau, ond mae newid tuag at ddulliau cyllido mwy ansoddol ar y gweill (de Kok, Tigges a van Kalmthout, 2020). Mae pob sefydliad yn adrodd i'r Gweinidog Cyfiawnder drwy dri adroddiad chwarterol yn amlinellu cynnydd tuag at dargedau. Yn ychwanegol at hyn, derbyniodd Reclassering Nederland ardystiad safon gofal yn y gorffennol, ardystiad penodol i'r sector sy'n dangos bod archwiliad annibynnol wedi'i wneud a bod gwasanaethau'n bodloni safonau ansawdd perthnasol (de Kok, Tigges a van Kalmthout, 2020).

Gan weithio ar y cyd â'r heddlu, erlynwyr, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr ieuencid, cymdeithasau tai, a phartneriaid ieuchyd, mae'r gwasanaeth prawf yn cymryd rhan mewn Fforymau Diogelwch (*Veiligheidshuis*) er mwyn datblygu dulliau cydgysylltiedig o fynd i'r afael â throseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (Van Dijk a De Waard, 2009). Mae'r cydweithredu hwn wedi arwain at well trefniadau rhannu gwybodaeth am droseddwyd, mwy o ymddiriedaeth a pharch o ganlyniad i well cydweithredu rhwng asiantaethau cyfiawnder a gofal, a phrosesau wedi'u symleiddio (Jochoms et al., 2012). Fodd bynnag, mae llwyddiant y dull amlasiantaethol hwn yn dibynnu ar gydweithredu da rhwng asiantaethau a'r gallu i weithio mewn amgylchedd sydd â phrosesau a gweithdrefnau cymhleth, a chyfrifoldeb wedi'i wasgaru oherwydd nad oes awdurdod gwneud penderfyniadau canolog, a llawer o bartneriaid yn gwneud penderfyniadau ar sail safbwyntiau a chredoau eu sefydliad eu hunain, yn hytrach na'r asiantaethau yn eu cyfanrwydd (Jochoms et al., 2012).

Mae Reclassering Nederland hefyd yn cydweithio ag asiantaethau eraill drwy weithdrefnau ZSM (cyn gynted ag y bo modd), a gyflwynwyd yn 2011 i brosesu mân droseddau cyffredin yn gyflym ac yn effeithlon (Salet a Terpstra, 2020). Gall erlynwyr cyhoeddus orfodi sancsiynau ar gyfer troseddau lefel isel heb yr ymyriad gan lys,

gyda sefydliadau perthnasol eraill yn cynnwys yr heddlu, gwasanaeth prawf, cymorth i ddioddefwyr, a gwasanaethau amddiffyn plant yn darparu cyngor yn gynnar. Yn lle dilyn dull gweithredu llinellol traddodiadol, cesglir gwybodaeth gan nifer o asiantaethau yr un pryd (gan gynnwys gwybodaeth cyn treial i benderfynu a yw rhywun yn euog) (Jacobs a van Kampen, 2014). Yn y rhan fwyaf o achosion, mae pob un o'r sefydliadau hyn yn dod at ei gilydd o gwmpas un bwrdd mewn gorsaf heddlu, gydag achosion sy'n aros am ddedfryd yn cael eu trafod gan bob un o'r asiantaethau (Jacobs a van Kampen, 2014). Mae'r system hon yn caniatáu cydweithredu amlasiantaethol cyflym ac uniongyrchol, sy'n cyflymu'r broses gyfiawnder, er bod pryder wedi'i fynegi ynglŷn â'r hawl i dreial teg ac ymddiriedaeth yn y system gyfiawnder i gyflawni hyn heb glywed gan y dioddefwr neu'r diffynnydd yn uniongyrchol. Erbyn hyn mae bron i un o bob tri chais am gyngor gan y gwasanaeth prawf yn dod o geisiadau yn y system hon (Reclassering Nederland, d.d.).

Gogledd Iwerddon

Datganolwyd pwerau yn ymwneud â chyfiawnder a phlisma i Ogledd Iwerddon yn 2010 (Fulton a Carr, 2013). Darperir gwasanaethau prawf gan Fwrdd Prawf Gogledd Iwerddon (PBNI), corff llywodraethol anadrannol a oedd yn arfer cael ei noddi gan Swyddfa Gogledd Iwerddon yn Llywodraeth y DU, ond sydd bellach yn cael ei noddi gan Weinyddiaeth Cyfiawnder Gogledd Iwerddon. Mae PBNI yn cael cyllid o gyllideb Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ac mae'n atebol i'r Gweinidog Cyfiawnder am gyflawni ei gylch gorchwyl, sydd wedi'i bennu gan gyfreithiau, dyfarniadau barnwrol, ac offerynnau statudol (Fulton a Carr, 2013).

Caiff PBNI ei oruchwyllo gan Fwrdd sy'n cynnwys aelodau o'r gymuned, a sefydlwyd yn wreiddiol er mwyn lleihau dylanwad y gwasanaeth sifil a chynnal cyfreithlondeb yn ystod yr Helyntion (Fulton a Carr, 2013). Mae'r Gweinidog Cyfiawnder yn ymateb i faterion sy'n gysylltiedig â PBNI yn y Cynulliad. Mae PBNI yn cynhyrchu cynllun corfforaethol tair blynedd a chynllun busnes blynyddol, sy'n ystyried adborth o ymgynghoriadau, a chan bartneriaid statudol a grwpiau cymunedol, yn ogystal â'r weledigaeth a amlinellwyd yn nghynlluniau perthynol yr Adran Gyfiawnder (PBNI, 2023). Er bod y strwythur corfforaethol yn caniatáu mwy o ymatebolrwydd i anghenion lleol a llai o ddylanwad gwleidyddol na model Cymru a Lloegr dan HMPPS (Fulton a Carr, 2013), cyfeiriodd y rhai a gyfwelwyd at densiynau rhwng blaenoriaethau'r llywodraeth a'r cyfeiriad dymunol a amlinellwyd gan y Bwrdd.

Cynhelir arolygiadau gan gorff anadrannol annibynnol arall o'r enw Criminal Justice Inspection Northern Ireland (CJI). Mae'n unigryw yn y DU ac Iwerddon gan fod ei

gylch gorchwyl yn edrych ar draws yr holl asiantaethau cyfiawnder troseddol ar wahân i'r farnwriaeth. Mae hyn yn golygu y gall arolygu PBNI yn ogystal â'r heddlu, y gwasanaeth carchardai, erlynwyr, cyfiawnder ieuenctid, a'r llysoedd (CJI, d.d.).

Fel corff hyd braich, nid yw cyllid ar gyfer darparu gwasanaethau prawf wedi'i glustnodi, felly rhaid i asiantaethau gystadlu am gyllid â ffynonellau gwariant llywodraethol eraill. Er mwyn annog cydweithredu â'r gymuned leol, mae rhan o'r gyllideb wedi'i dyrannu ar gyfer gwariant ar brosiectau gyda chymunedau lleol. Fodd bynnag, mae statws hyd braich yn golygu bod y dyraniad cyllidebol hefyd yn cynnwys costau nad ydynt yn gysylltiedig â darparu gwasanaeth, megis adeiladau a staffio. Gan na chaniateir gorwario, mae effeithiau ar gost y gwariant hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar y cyllid sydd ar gael i'w wario ar ddarparu gwasanaeth. Ers canol degawd cyntaf y ganrif hon, mae cyni wedi arwain at doriadau sylweddol i'r gyllideb brawf sylfaenol, gan gynyddu dibyniaeth ar gyllid dros dro ar gyfer mentrau ychwanegol (CJI, 2020). Mae hyn wedi cyfyngu ar gapasiti staffio PBNI a'i allu i ddatblygu dulliau arloesol.

Mae'r staff sy'n darparu gwasanaethau prawf creiddiol fel arfer yn dod o gefndir gwaith cymdeithasol, gyda gradd gwaith cymdeithasol yn cael ei chydabod fel y cymhwyster ar gyfer swyddogion prawf ac achrediad gan Gyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon (Fulton a Carr, 2013). Fel yr Alban, mae'r radd gwaith cymdeithasol yn cynnwys rhaglen integredig sy'n ymwneud â nifer o agweddau, gan gynnwys iechyd meddwl, plant a theuluoedd a chyfiawnder troseddol. Rhaid i raddedigion gwblhau blwyddyn wedi'i hasesu mewn cyflogaeth cyn cael cymhwyster wedi'i gydnabod yn llawn (Fulton a Carr, 2013). Fodd bynnag, gan fod PBNI yn gorff anadrannol, nid yw ei raddfeydd cyflog yn gyson â'r gwasanaeth sifil. Dywedodd y rhai y buom yn eu cyfweld fod recriwtio a chadw staff yn her, gan fod hyfforddiant cyffredinol yn golygu bod meysydd gwaith cymdeithasol eraill yn gallu bod yn fwy proffidiol. Nid yw'n ofynnol i Swyddogion Cymorth Prawf gael cymhwyster gwaith cymdeithasol ffurfiol, ond rhaid iddynt gael NVQ perthnasol cyn pen dwy flynedd (Fulton a Carr, 2013). Canfu arolygiad yn 2020 fod morâl staff yn isel oherwydd llwyth gwaith mawr, prinder staff cymwysedig, a diwylliant sefydliadol lle nad oedd staff yn teimlo bod uwch arweinwyr yn eu gwerthfawrogi nac yn ymddiried ynddynt (CJI, 2020).

Mae trosglwyddo troseddwyr rhwng Gogledd Iwerddon a gwledydd eraill y DU yn gymharol syml o ganlyniad i ddeddfwriaeth gyfatebol (Price, Notman, a Tilley, 2024). Rhwng Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon, mae un pwynt cyswllt yn bodoli er 2007 er mwyn ymdrin ag atgyfeiriadau ar gyfer y rhai sy'n symud rhwng y ddwy awdurdodaeth, ac adroddiadau cyn dedfrydu yw'r prif reswm dros yr atgyfeiriadau hyn (Fulton a Carr, 2013). Dywedodd y rhai a gyfwelwyd gennym fod y broses hon yn gweithio'n ddidrafferth. Yn ogystal â'r cydweithio gweithredol hwn, mae cydweithio

strategol rhwng PBNi a Gwasanaeth Prawf Iwerddon. Mae is-grŵp a elwir yn Grŵp Cyngori ar Ddiogelu'r Cyhoedd wedi bod yn cyfarfod er 2006 a chafodd ei ffurfio fel rhan o'r Cytundeb Rhynglywodraethol ar Gydweithredu ar Faterion Cyfiawnder Troseddol (Irish Department of Justice, 2022). Caiff y grŵp ei gyd-gadeirio gan arweinwyr gwasanaethau prawf yn Iwerddon a Gogledd Iwerddon ac mae'n darparu strwythur ffurfiol ar gyfer ymgysylltu rhwng y ddau wasanaeth yn ogystal ag ar gyfer cryfhau cysylltiadau â rhanddeiliaid allweddol eraill yn systemau cyfiawnder y ddwy wlad (Donnellan a McCaughey, 2010). Mae'r grŵp wedi mynd i'r afael â phynciau amrywiol megis mwy o gydweithio trawsffiniol, rhannu'r arferion gorau, a mynd i'r afael â throeddau trawsffiniol (Donnellan a McCaughey, 2010).

Gweriniaeth Iwerddon

Mae Gwasanaeth Prawf Iwerddon yn rhan o'r Adran Gyfiawnder. Yn ogystal â goruchwyllo'r rhai sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar ac sy'n treulio dedfrydau yn y gymuned, mae hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc (12-18 oed) sy'n troseddu, drwy ei dimau Prawf Pobl Ifanc (YPP), mewn cydweithrediad â gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid (Irish Probation Service, 2023a).

Mae'r Gwasanaeth Prawf yn gweithredu fel asiantaeth genedlaethol ond mae ganddo bum rhanbarth goruchwyllo cymunedol, dau ranbarth carchar gyda staff prawf yn gweithio mewn carchardai, a thimau ar gyfer meysydd arbenigol cenedlaethol, gan gynnwys dysgu a datblygu, cyfiawnder adferol, a throeddau risg uchel. Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Prawf yn cadeirio'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, sy'n cynnwys pedwar Dirprwy Gyfarwyddwr (Llys a Chymuned, Carcharorion ac Ailintegreiddio, Ymarfer Effeithiol, a Materion Corfforaethol) (Irish Probation Service, 2023b).

Yn wahanol i Ogledd Iwerddon, dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod y gyllideb sy'n cael ei dyrannu i Wasanaeth Prawf Iwerddon yn rhan o gyllideb yr Adran Gyfiawnder, sy'n golygu bod cyllid ar gyfer y Gwasanaeth yn cynnwys staff a darparu gwasanaethau yn bennaf. Mae cyllid ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu darparu drwy dros 60 o sefydliadau cymunedol yn cyfateb i tua un rhan o dair o gyfanswm y gyllideb (Irish Probation Service, 2023c).

Yn ogystal â rôl sefydliadau cymunedol, dywedodd y rhai a gyfwelwyd wrthym fod perthnasoedd da ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, megis carchardai, yn hanfodol i weithrediad gwasanaeth prawf Iwerddon. Cyfeiriasant hefyd at werth perthnasoedd personol â'r farnwriaeth, gan ddweud bod hyfforddiant ar y cyd a rhannu gwybodaeth â'r gwasanaeth llysoedd yn dilyn COVID-19 wedi galluogi

Gwasanaeth Prawf Iwerddon i geisio cryfhau'r berthynas honno. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gweithredu desg ryngwladol i brosesu ceisiadau am adroddiadau a throsglwyddo goruchwyliaeth i wledydd eraill.

Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaeth yn gyfrifol am reolaeth o ddydd i ddydd, ond mae cyfrifoldeb statudol yn nwylo'r Gweinidog Cyfiawnder, sy'n helpu i bennu nodau polisi ac yn cymeradwyo amcanion perfformiad y Gwasanaeth (Irish Probation Service, 2023b). Yn unol â'r cod ymarfer, mae'r Cyfarwyddwr hefyd yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Gweinidog yn amlinellu ei berfformiad yn erbyn ei Gytundeb Cyflawni Perfformiad (Irish Probation Service, 2023d).

Mae gan bob swyddog prawf yn Iwerddon gymhwyster gwaith cymdeithasol ac maent yn cael eu cyflogi fel gweision sifil. Cyflwynodd Gwasanaeth Prawf Iwerddon rôl Cynorthwydd Prawf newydd yn ddiweddar i ddarparu cymorth â gwaith y Gwasanaeth. Nid oes angen gradd gwaith cymdeithasol ar gyfer y rôl hon, ac mae'n rhan o ymdrechion i arloesi wrth ddarparu gwasanaeth a goresgyn heriau wrth recriwtio staff. Yn 2022, lansiodd y Gwasanaeth hwb adnoddau ar-lein newydd i staff, gan ddarparu cymorth dysgu a dolenni i bolisiâu a gwybodaeth i gefnogi eu rhyngweithiadau o ddydd i ddydd gyda throseddwyr, ynghyd â fframwaith ymarfer newydd (Irish Probation Service, 2023b).

Yr Alban

Nid oes gan yr Alban asiantaeth unigol sy'n gyfrifol am brawf. Yn hytrach, darperir gwasanaeth prawf drwy adrannau gwaith cymdeithasol ei 32 awdurdod lleol, sy'n darparu gwasanaethau gwaith cymdeithasol cyfiawnder statudol (Grant, Buchan, ac O'Donnell, 2020). Trosglwyddwyd cyfrifoldebau dros brawf i awdurdodau lleol yr Alban fel rhan o Ddeddf Gwaith Cymdeithasol (Yr Alban) 1968, a ddaeth â'r gwasanaeth prawf cenedlaethol i ben hefyd yn dilyn Adroddiad Kilbrandon yn 1964 (Coyle a Tombs, 2018).

Yn 2005, arweiniodd Deddf Rheoli Troseddwyr (Yr Alban) at greu wyth Awdurdod Cyfiawnder Cymunedol (CJA), â'r nod o leihau aildroseddu drwy 'hybu partneriaeth a dyrannu cyllid rhwng llywodraeth leol, cyfiawnder troseddol, ac asiantaethau eraill' (Buchan a Morrison, 2020: 227). Roedd hyn yn ymdrech i gydbwysu angen tybiedig y llywodraeth ganolog i ganoli gwasanaethau, (oherwydd pryderon ynglŷn â gallu awdurdodau lleol i reoli'r gwasanaeth yn effeithlon), â'r gred bod awdurdodau lleol yn hollbwysig er mwyn cynnal ethos nodweddiadol Albanaidd, wedi'i wreiddio mewn gwaith cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaeth, o gymharu â'r dull gweithredu yng Nghymru a Lloegr (Buchan a Morrison, 2020). Er mai eu nod datganedig oedd lleihau

aildroseddu, nid oedd gan Awdurdodau Cyfiawnder Cymunedol gyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaeth. Yn hytrach, roeddent yn canolbwyntio ar hybu cydweithrediad rhwng awdurdodau lleol a dosbarthu cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer gwaith cymdeithasol cyfiawnder (a oedd yn arfer cael ei ddyrannu i awdurdodau lleol) (Morrison, 2015).

Yn 2011, canfu adroddiad gan Audit Scotland 'amrywiadau yn yr ystod o wasanaethau a ddarperir ar draws y wlad' a bod trefniadau cyllido yn gymhleth a byrdymor (Audit Scotland, 2011: 36). Nododd hefyd fod datganoli wedi arwain at ddiwygio sylweddol, ond ei fod hefyd wedi ychwanegu cymhlethdod wrth reoli'r system gyfiawnder yn ei chyfanrwydd oherwydd nifer y cyfranogwyr a'u hatebolrwydd gwahanol (Audit Scotland, 2011). Tynnwyd sylw at ganfyddiadau tebyg gan Gomisiwn Llywodraeth yr Alban ar Droseddwy'r Benywaidd, a argymhellodd y dylid 'sefydlu gwasanaeth cenedlaethol newydd ... i gomisiynu, darparu a rheoli gwasanaethau i droseddwy'r sy'n oedolion yn y gymuned' (2012: 87).

Sefydlodd Deddf Cyrff Cyhoeddus (Cydweithio) (Yr Alban) 2014 Bartneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydweithio er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned i oedolion fel rhan o fodel integredig (Health and Social Care Scotland, d.d.). Yn y model hwn, gall sefydliadau ddirprwyo cyfrifoldeb am lywodraethu, cynllunio, ac adnoddau i gorff corfforedig ar y cyd a elwir yn Gyd-fwrdd Integreiddio (IJB). Er nad yw'n ofyniad statudol i ddirprwyo cyfrifoldeb am waith cymdeithasol cyfiawnder i'r Cyd-fwrdd Integreiddio, mae hyn wedi digwydd mewn deunaw ardal awdurdod lleol yn yr Alban (Ormston et al., 2024). Mae effeithiau cadarnhaol y model hwn yn cynnwys partneriaeth agos rhwng gwasanaethau, rhannu gwerthoedd sefydliadol, a chydleoli gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd pryderon fod materion iechyd yn cael lle mwy amlwg yn niwylliant a strwythur y trefniadau hyn, a bod gwaith cymdeithasol cyfiawnder 'yn gallu teimlo fel pe bai wedi cael ei anghofio ac yn cael mwy o anhawster i sicrhau bod rhywun yn clywed ei lais' (Ormston et al., 2024: 33).

Ffurfiwyd Cyfiawnder Cymunedol yr Alban (CJS) ar ôl pasio Deddf Cyfiawnder Cymunedol (Yr Alban) 2016. Mae'n gorff corfforaethol cenedlaethol sy'n atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder am gyflawni polisi, cydymffurfio â dyletswyddau statudol, a pherfformiad yn erbyn amcanion a bennwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet (Grant, Buchan, ac O'Donnell, 2020). Mae CJS yn darparu arweinyddiaeth strategol genedlaethol, yn hybu arloesi, ac yn cefnogi dysgu a datblygu, gan gynnwys cynnig y rhan fwyaf o'r hyfforddiant a'r datblygiad ar gyfer gweithwyr cymdeithasol cyfiawnder (Grant, Buchan, ac O'Donnell, 2020). Er bod Cyfiawnder Cymunedol yr Alban wedi'i greu, dywedodd y rhai y buom yn eu cyfweld

fod darpariaeth gwaith cymdeithasol cyfiawnder yn yr Alban yn parhau'n ddi-drefn ac yn amrywio o'r naill awdurdod lleol i'r llall, gan ymdebygu i loteri cod post.

Yn ogystal â sefydlu CJS, cyflwynodd Deddf Cyfiawnder Cymunedol (Yr Alban) fodel newydd ar gyfer cyfiawnder cymunedol yn yr Alban, gan greu Partneriaethau Cyfiawnder Cymunedol. Mae'r partneriaethau hyn yn cynnwys partneriaid statudol, yn cynnwys yr heddlu, byrddau iechyd, cyd-fyrddau integreiddio, awdurdodau lleol, y llysoedd, gwasanaeth carchardai, a Phrocuradur Cyllidol, ac mae'n ofynnol iddynt ymgysylltu â'r trydydd sector lleol hefyd er mwyn gwella canlyniadau (Scottish Government, 2016). Er gwaetha'r nod o annog gweithio mewn partneriaeth, mae'r farn ynglŷn ag effeithiau'r partneriaethau hyn wedi bod yn gymysg, â rhai'n teimlo eu bod wedi helpu i wella proffil gwaith cymdeithasol cyfiawnder, tra bo eraill yn teimlo bod eu rolau a'u cyfrifoldebau'n aneglur, a bod llawer o'r baich yn cael ei roi ar ysgwyddau timau gwaith cymdeithasol cyfiawnder, o ran adrodd am ganlyniadau a datblygu cynlluniau gwella (Ormston et al., 2024). Dywedwyd bod amrywiadau rhanbarthol o ran effeithiolrwydd y cydweithredu yn peri pryder hefyd (Ormston et al., 2024).

Mae'r gweithlu yn yr Alban yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol cymwysedig gan mwyaf, ac mae staff eraill sy'n cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau cyfiawnder fel arfer yn meddu ar gymwysterau gofal cymdeithasol eraill (Grant, Buchan, ac O'Donnell, 2020). Rhaid i weithwyr cymdeithasol gofrestru â Chyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban (SSSC) a dilyn ei god ymarfer. Mae cod ymarfer ar gyfer cyflogwyr hefyd, sy'n cynnwys sicrhau bod 'pobl ag agweddau a gwerthoedd priodol... yn ymuno â'r gweithlu' (Scottish Social Services Council, 2024: 21). Mae graddau gwaith cymdeithasol a chymwysterau ôl-raddedig yn ymarfer cyffredinol a'r nod yw paratoi graddedigion ar gyfer gwaith mewn ystod o leoliadau gwaith cymdeithasol, ac ar hyn o bryd, nid oes cwrs ôl-gymhwysio cydnabyddedig yn bodoli ar gyfer y rhai sy'n awyddus i arbenigo mewn gwaith cymdeithasol cyfiawnder (Grant, Buchan, ac O'Donnell, 2020). Mae gan rai awdurdodau lleol benaethiaid gwaith cymdeithasol cyfiawnder arbenigol, ond mewn eraill, gallai arweinwyr fod yn gyfrifol am fwy nag un arbenigaeth, neu gallai'r pennaeth gwaith cymdeithasol cyfiawnder fod yn is yn yr hierarchaeth sefydliadol na'r rhai sy'n gyfrifol am wasanaethau eraill. Cyfeiriodd y rhai a gyfwelwyd at gronfa fach y gellid recriwtio arweinwyr y dyfodol ohoni, gan ddweud bod llawer yn symud i rolau â mwy o gyflog mewn meysydd gwaith cymdeithasol eraill. Dywedasant wrthym hefyd fod awdurdodau lleol a oedd â mwy o adnoddau yn aml yn gallu dwyn staff gan awdurdodau lleol eraill nad oedd ganddynt gymaint o adnoddau.

Er gwaetha'r diwygiadau sylweddol ers i'r Alban adennill rheolaeth ddeddfwriaethol a gweithredol o'i system gyfiawnder yn 1999, gallai diwygiadau arfaethedig pellach i wasanaethau cymdeithasol drwy Wasanaeth Gofal Cenedlaethol posibl effeithio ar

waith cymdeithasol cyfiawnder. Mae'n dal yn aneglur a allai hyn effeithio ar waith cymdeithasol cyfiawnder, a sut, ond gallai'r diwygiadau hyn newid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu trefnu a'u darparu (Buchan, 2023). Mae gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid wedi mynegi pryder ynglŷn â diffyg gwybodaeth am y posibilrwydd o gynnwys gwaith cymdeithasol cyfiawnder mewn Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, yn ogystal â phryderon ynglŷn ag adnoddau, gweithio mewn partneriaeth, a'r posibilrwydd o golli ethos gwaith cymdeithasol (Ormston et al., 2024).

Slofenia

Cyn i Wasanaeth Prawf Slofenia gael ei ffurfio yn 2018, nid oedd un endid yn gyfrifol am brawf yn Slofenia. Yn hytrach, roedd swyddogaethau prawf yn cael eu cyflawni gan wasanaethau amrywiol, gan gynnwys erlynwyr, carchardai, a gwasanaethau cymdeithasol (Novak, 2008). Roedd gweithwyr cymdeithasol, er enghraifft, yn gorfod rheoli achosion prawf ochr yn ochr â'u prif gyfrifoldebau yn ymwneud â phlant a theuluoedd, gan gyfyngu ar eu gallu i ymgysylltu'n effeithiol â gwaith prawf. Arweiniodd hyn at golli ymddiriedaeth a diffyg hyder gan y farnwriaeth y gallai dedfrydau digarchar gael effaith gadarnhaol ar y system cyfiawnder troseddol.

Yn 2015, er mwyn cydymffurfio â chyfarwydddebau'r Undeb Ewropeaidd a lleihau nifer y troseddwyr a oedd yn treulio dedfrydau byr o garchar, argymhellodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth Lywodraeth Slofenia y dylid sefydlu gwasanaeth prawf llawn (Justice Trends, 2019). Ffurfiwyd gweithgor trawslywodraethol, yn cynnwys gweinidogaethau perthnasol, sefydliadau cyfiawnder troseddol, ac academyddion, i ddatblygu cynllun gweithredu (Justice Trends, 2019). Yn dilyn hynny sefydlwyd Gwasanaeth Prawf Slofenia drwy ddeddfwriaeth sylfaenol.

Wrth baratoi cynnwys y ddeddfwriaeth, ymwelodd swyddogion yn Slofenia â gwasanaethau prawf eraill yn Ewrop, gan gynnwys rhai yn Norwy, Croatia, a'r Iseldiroedd, er mwyn deall strwythurau amrywiol ar gyfer trefnu gwasanaeth prawf a manteision ac anfanteision pob un (Mrhar Prelić, 2022). Sefydlwyd y gwasanaeth prawf fel corff cyhoeddus newydd, rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a oedd yn ei wneud yn gyfartal â'r gwasanaeth carchardai yn yr hierarchaeth llywodraethol.

Roedd llawer o'r anawsterau yn y trefniadau blaenorol 'yn codi o ddryswch ynghylch rolau a diffyg sianeli cyfathrebu clir rhwng y cyrff perthnasol' (Mrhar Prelić, 2022: 59). Eglurodd y ddeddfwriaeth nodau a dyletswyddau statudol y gwasanaeth prawf, gan amlinellu sut y byddai'n cydweithio â gwasanaethau eraill a beth oedd ei gyfrifoldebau, gan gynnwys mwy o ymgysylltu â'r farnwriaeth, safoni ymarfer, mwy o

broffesiynoli, a chasglu a dadansoddi data'n ganolog (Mrhar Prelić, 2022). Er mwyn datblygu ymddiriedaeth yn y gwasanaeth prawf newydd, cynhaliodd swyddogion gyfarfodydd â staff barnwrol ledled y wlad a dosbarthwyd deunyddiau hyrwyddo er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid (Mrhar Prelić, 2022).

Mae Gwasanaeth Prawf Slofenia yn cynnwys un corff canoledig a phum uned ranbarthol. Mae'r uned ganolog yn gyfrifol am addysg a hyfforddiant staff, gwerthuso ac arweiniad a hwyluso cydweithrediad ag awdurdodau a gwasanaethau eraill. Mae unedau rhanbarthol yn gyfrifol am drefnu a darparu'r gwasanaethau o ddydd i ddydd, yn ogystal â sefydlu a chynnal rhwydwaith o sefydliadau cymunedol i ddarparu lleoliadau gwaith (Mrhar Prelić, 2022). Darperir cyllid, adnoddau dynol, a chefnogaeth weinyddol drwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Pan gafodd ei sefydlu yn 2018, roedd y llwyth gwaith cyfartalog ar gyfer swyddog prawf yn 78.1 o achosion, yn cynyddu i 94.9 o achosion yn 2019 cyn gostwng i 43.3 o achosion erbyn diwedd 2020 (Mrhar Prelić, 2022). Roedd llwyth gwaith yn un o heriau cychwynnol y gwasanaeth prawf newydd a sefydlwyd, oherwydd er bod gan y sefydliad newydd y cyllid angenrheidiol, nid oedd wedi cael caniatâd i drosglwyddo digon o staff o'r gwasanaethau cymdeithasol. Wrth i hyder yn y system newydd gynyddu, tyfodd y llwyth achosion i ddechrau, ond gostyngodd ar ôl i fwy o weithwyr prawf gael eu recriwtio. Fodd bynnag, er diwedd 2020, mae cynnydd mewn trosiant staff a chynnydd yn y tasgau ychwanegol a roddir i staff wedi arwain at gynnydd mewn llwyth achosion unwaith eto (Mrhar Prelić, 2022).

Y Swistir

Mae'r cyfrifoldeb am y rhan fwyaf o faterion cyfiawnder troseddol yn y Swistir wedi'i ddatganoli i'r cantonau, gan gynnwys trefniant eu heddluoedd, carchardai, a gwasanaethau prawf. Nid oes awdurdod prawf canolog yn y Swistir. Yn ddamcaniaethol, gall pob canton reoli prawf yn ei ffordd ei hun. Mae hyn yn golygu nad oes sail gyffredin i asesu ansawdd a pherfformiad ar lefel genedlaethol, ac mae'n atal cydweithrediad rhwng gwasanaethau prawf (Urwylar, 2020).

Yn y rhan fwyaf o'r cantonau, mae'r gwasanaeth prawf yn parhau'n asiantaeth gyhoeddus ac yn rhan o Weinyddiaeth Gyfiawnder, ond mae un canton wedi cyfuno prawf â'i adran gwasanaethau cymdeithasol (Fink a Bruni, 2013). Mae dau ganton wedi preifateiddio eu gwasanaethau prawf: mae un yn gweithredu fel sefydliad preifat, a'r llall yn gweithredu fel sefydliad nid-er-elw (Confederation of European Probation, 2018). Mae'r prif wahaniaeth rhwng y gwasanaethau prawf preifat a chyhoeddus yn ymwneud â'r gweithlu, â'r rhai sydd mewn gwasanaethau prawf

cyhoeddus yn cael eu dosbarthu fel gweision sifil. Mae integreiddio prawf i'r un weinidogaeth â'r heddlu a swyddogaethau cyfiawnder troseddol eraill yn golygu ei bod yn haws trosglwyddo gwybodaeth am droseddwyr (Fink a Bruni, 2013).

Pennir cyllidebau gan seneddau cantonol, ac mae gwasanaethau prawf sy'n parhau'n gyfrifoldeb i'r wladwriaeth fel arfer yn atebol i'r senedd. Mae'r gwasanaethau prawf sydd wedi'u preifateiddio yn cael cymhorthdal gan y cantonau ar sail perfformiad ac amcanion, ac mae rhai cantonau yn caniatáu casglu cyllid preifat (er enghraifft gan sefydliadau elusennol) i helpu i ddarparu gwasanaeth (Fink a Bruni, 2013).

Mae carchardai fel arfer yn gyfrifoldeb i'r gweinidogaethau cyfiawnder cantonol, tra mae'r llysoedd, er eu bod hwythau'n gantonol gan mwyaf, ar wahân i'r llywodraeth. Mae hyn yn golygu bod perthnasoedd gydag asiantaethau cyfiawnder eraill yn cael eu rheoli ar y lefel leol yn bennaf.

Mae rhai cantonau hefyd wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb am oruchwylio troseddwyr risg isel i wasanaethau cymdeithasol lleol. Yn Zurich, er enghraifft, caiff troseddwyr risg isel eu trosglwyddo i wasanaethau cymdeithasol y rhanbarth dinesig tra caiff troseddwyr risg uwch eu goruchwylio'n uniongyrchol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar lefel cantonau (Fink a Bruni, 2013). Mae trefniadaeth ranbarthol prawf yn golygu y gallai staff prawf mewn cantonau llai orfod ymgymryd â chyfrifoldebau eraill yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd (Fink a Bruni, 2013).

Os nad yw troseddwr yn byw yn y canton lle cafodd ei ddedfrydu, mae'r cyfrifoldeb am ei oruchwylio fel arfer yn cael ei drosglwyddo i'r gwasanaeth prawf lle mae'n byw (y gwasanaeth prawf y rhoddir mandad iddo), sy'n cael cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl ynglŷn â'r gofynion goruchwylio. Ar ddiwedd y cyfnod goruchwylio, mae'r gwasanaeth y rhoddir mandad iddo yn anfon adroddiad i'r canton dedfrydu gwreiddiol, sydd wedyn yn cwblhau'r mandad (Urwyler, Gabaglio, a Rüfenacht, 2024).

Er mwyn meithrin perthnasoedd rhwng cantonau a chysoni polisi ac ymarfer, mae'r cantonau hefyd wedi datblygu concordatiau ar draws tri gwahanol ranbarth. O fewn y rhain, mae grwpiau arbenigol yn gweithio ar brawf er mwyn datblygu consensws a chydweithrediad ar draws rhanbarthau (Fink a Bruni, 2013). Fodd bynnag, dim ond un o'r grwpiau hyn sydd wedi datblygu safonau ar gyfer monitro perfformiad gwahanol wasanaethau yn gyson (Urwyler, 2020).

Nid oes gofynion unedig er mwyn bod yn swyddog prawf yn y Swistir. Er bod y rhan fwyaf o'r swyddogion prawf wedi'u hyfforddi fel gweithwyr cymdeithasol, mae diffyg ffocws penodol ar brawf mewn addysg brifysgol yn golygu bod hyfforddiant yn y

gwaith yn gyffredin i weithwyr newydd (Fink a Bruni, 2013). Mewn lleiafrif o'r cantonau, cynorthwyr staff gan wirfoddolwyr a all gynorthwyo'r rhai sydd ar brawf i ddod o hyd i waith neu lety, mynd i'r afael â dyledion, neu sefydlogi perthnasoedd cymdeithasol (Fink a Bruni, 2013).

Myfyrdodau ar gyfer Cymru

Yn Rhan 1 o'n hadroddiad ar adeiladu gwasanaeth prawf Cymreig, rydym yn nodi saith ystyriaeth ymarferol y mae angen rhoi sylw iddynt fel rhan o unrhyw fodel arfaethedig ar gyfer datganoli (Price, Notman a Tilley, 2024). Mae'r adran hon yn cynnig myfyrdodau ar yr ystyriaethau allweddol hyn yn dilyn yr astudiaethau achos a gyflwynwyd uchod.

Mae rhai modelau o wasanaethau prawf ledled Ewrop wedi cynnwys darparu gwasanaethau prawf gan sefydliadau anllywodraethol, er eu bod yn rhai nid-er-elw yn bennaf. Pe bai unrhyw rai o'r modelau hyn yn cael eu gweithredu yng Nghymru, byddai angen dysgu gwersi o'r ymdrechion i breifateiddio rhannau o'r gwasanaeth prawf yn ystod y broses Gweddnewid Adsefydlu sydd bellach wedi'i gwrthdroi.

Gweithlu

Mae Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf (PDG) yn amlinellu datganoli prawf fel cyfle i broffesiynoli'r gweithlu ac adfer ethos gwaith cymdeithasol (Borja et al., 2023). Gradd gwaith cymdeithasol yw'r llwybr mynediad mwyaf cyffredin i fod yn swyddog prawf yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop, â'r cymhwyster nodweddiadol yn ymdrin ag agweddau amrywiol ar waith cymdeithasol, gan gynnwys prawf. Er hyn, mae gan rai gwledydd feini prawf mynediad ehangach hefyd, gan gynnwys troseddeg, y gyfraith, a seicoleg, â hyfforddiant a mentora penodol yn cael ei ddarparu ar ôl recriwtio.

Mae recriwtio a chadw staff yn parhau'n heriau yn llawer o wledydd Ewrop, yn enwedig o ganlyniad i gystadleuaeth o feysydd gwaith cymdeithasol eraill sy'n cynnig mwy o gyflog neu lwybrau cynnydd mwy atyniadol. Mae proffil isel prawf mewn llawer o wledydd hefyd yn rhwystr yng nghyswllt recriwtio, ac nid yw sefydlu cysylltiadau uniongyrchol â sefydliadau addysg uwch, fel yn y Ffindir, wedi mynd i'r afael yn ddigonol â'r broblem hon. Nodwyd recriwtio arweinwyr y dyfodol fel problem benodol yn yr Alban, ac roedd hyfforddiant yn cael ei gynnig yng Ngogledd Iwerddon i'r rhai a oedd yn ystyried symud ymlaen i rôl arwain.

Tynnwyd sylw at bryderon yn ymwneud â'r gweithlu hefyd wrth sefydlu'r gwasanaeth prawf yn Slofenia. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â nifer y staff y gellid eu trosglwyddo i'r gwasanaeth newydd o'r dechrau un. Yng Nghymru, mae'n debyg y byddai'r rhan fwyaf o'r staff rheng flaen sy'n gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd, os nad y cyfan, yn cael eu trosglwyddo i wasanaeth datganoledig, ond mae'n bosibl y bydd angen recriwtio rhywfaint o staff i swyddi gweinyddol ar y dechrau. Mae lleihau llwyth gwaith swyddogion prawf yn debygol o fod yn bryder uniongyrchol i wasanaeth datganoledig newydd, ac mae'r enghraifft o Slofenia yn dangos sut y gall pwysau

gweithlu waethygu yn y tymor byr. Os nad yw'r gweithlu yn cael ei ehangu wrth i hyder y farnwriaeth mewn gwasanaeth prawf newydd gynyddu, ac wrth i fwy o ddedfrydau digarchar gael eu defnyddio, bydd llwyth achosion a llwyth gwaith yn cynyddu, gan ychwanegu at y problemau cadw staff. Bydd yn hanfodol ystyried sut i hyfforddi a recriwtio staff newydd er mwyn lleihau pwysau gweithlu yn y cyfnod canolraddol, cynnal llwyth achosion llai yn y tymor canolig, a chanolbwyntio ar nodau tymor hwy fel mwy o broffesiynoli. Yn ychwanegol at hyn, bydd yr angen i ehangu'r gweithlu yn y tymor byr yn golygu bod angen mwy o gyllid ac ateb i'r problemau presennol sy'n gysylltiedig â recriwtio.

Byddai angen i unrhyw fodel datganoledig ystyried ffyrdd creadigol o leihau llwyth achosion, o ystyried nad oes gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros boblogaeth carchardai ar hyn o bryd. Gallai rhaglenni gwirfoddol, fel y rhai sydd yn Awstria a rhai rhanbarthau yn y Swistir (yn ogystal â rhannau eraill o Ewrop), gynnig un ateb, ac mae gwirfoddoli eisoes yn rhan o'r system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr drwy ynadon.

Llywodraethu rhanbarthol

Mae gwasanaethau prawf ledled Ewrop yn defnyddio amrywiaeth eang o strwythurau llywodraethu rhanbarthol. Mae'n debyg y bydd y lefel briodol o lywodraethu rhanbarthol yng Nghymru yn seiliedig ar anghenion unigryw'r gwasanaeth Cymreig a'i ddefnyddwyr, yn ogystal â'r agweddau daearyddol a'r strwythurau rhanbarthol presennol yng Nghymru.

Mae llawer o wasanaethau prawf yn Ewrop, gan gynnwys y rhai yng Ngweriniaeth Iwerddon a Slofenia, yn gweithredu gwasanaeth prawf unedol sy'n cael ei ddarparu ar lefel ranbarthol. Mae hyn yn caniatáu rheolaeth ganoledig dros faterion allweddol a rennir megis hyfforddiant a datblygiad, cynllunio strategol a gweledigaeth, casglu data a goruchwyllo, a chynnal perthnasoedd â chyfranogwyr eraill ar lefel genedlaethol. O safbwynt gweithredol, caiff unedau rhanbarthol wedyn y cyfrifoldeb o reoli a darparu gweithrediadau o ddydd i ddydd tra'n cynnal perthnasoedd â gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n lleol a phartneriaid cymunedol, sy'n hanfodol er mwyn ymateb i anghenion lleol.

I'r gwrthwyneb, mae'r Alban a'r Swistir yn cynnwys enghreifftiau o system brawf fwy tameidiog, ag asiantaethau ar wahân ar y lefel leol. Yn y Swistir, gall cantonau benderfynu sut i strwythuro eu gwasanaethau prawf, â rhai'n dewis gweithredu'n fewnol tra bo eraill yn dewis model hyd braich neu breifat. Yn yr Alban, lle darperir prawf gan awdurdodau lleol unigol, bu nifer o ymdrechion i sicrhau mwy o ganoli er mwyn gwella effeithlonrwydd a chysondeb wrth ddarparu gwasanaethau. Mae'r llenyddiaeth bresennol yn tynnu sylw at y tensiwn parhaus rhwng y llywodraeth

ganolog a llywodraeth leol ym maes darparu gwasanaethau prawf. Yn y naill system a'r llall, datblygwyd grwpiau rhanbarthol i leihau darnio a gwella cydweithrediad, er bod y rhain wedi'u diddymu yn ddiweddarach yn yr Alban. Er bod corff canolog wedi'i greu mewn enw yn yr Alban, mae'r gwasanaethau'n parhau'n ddigysylltiad ac yn amrywiol.

Gallai'r dull gorau ar gyfer gweithredu model tebyg yng Nghymru ddibynnu ar y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus datganoledig a grwpiau cymunedol eisoes yn rhyngweithio â'i gilydd mewn strwythurau sy'n bodoli'n barod. Er enghraifft, darperir gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau iechyd meddwl drwy fyrddau iechyd lleol, a darperir gwasanaethau cymdeithasol drwy awdurdodau lleol. Mae strwythurau megis byrddau gwasanaethau cyhoeddus a byrddau partneriaeth rhanbarthol yn bodoli'n barod yng Nghymru er mwyn hwyluso darparu gwasanaethau ar y cyd a chydweithio, a gallai gwasanaeth prawf datganoledig ymgysylltu'n rheolaidd â'r strwythurau hyn. Mae achos yr Alban yn amlygu enghraifft o hyn drwy bartneriaethau iechyd a Gofal Cymdeithasol, er bod profiadau o effeithlonrwydd hyn wedi bod yn gymysg. Mewn cymhariaeth, mae gweithio mewn partneriaeth yn yr Iseldiroedd rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol, iechyd, a gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn fwy llwyddiannus, gan ddangos sut y gellir datblygu ymddiriedaeth rhwng y ddwy ochr a dulliau gweithredu cyffredin. Mae'r profiadau i gyd yn tanlinellu'r angen am offer gwneud penderfyniadau a rennir i alw asiantaethau partner i gyfrif am eu cyfrifoldebau. Gallai cysoni â strwythurau rhanbarthol sy'n bodoli'n barod yng Nghymru annog gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau cyhoeddus datganoledig a manteisio ar ddarpariaeth leol, fel y nodir yn Rhan 1 (Price, Notman, a Tilley, 2024).

Rheolaeth a goruchwyllo

Mewn modelau datganoli gweithredol neu ddeddfwriaethol, byddai cyfrifoldeb dros reoli a goruchwyllo'r system brawf hefyd yn trosglwyddo i Gymru. Mae enghreifftiau o Ddenmarc a'r Alban yn tynnu sylw at ddylanwad yr archwilwyr cyffredinol ar godi materion â swyddogaeth y gwasanaeth prawf ac ysgogi diwygiadau yn y dyfodol. Mae'n rhesymol tybio, sut bynnag y bydd gwasanaeth prawf yn cael ei drefnu'n rhanbarthol yn y dyfodol, y byddai gan Archwilio Cymru rywfaint o oruchwyliaeth, fel y nodir yn Rhan 1 o'n hadroddiad (Price, Notman, a Tilley, 2024).

Mae'r Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol yng Ngogledd Iwerddon hefyd yn dangos sut y gellid sefydlu arolygiaeth i ymdrin â nifer o agweddau ar gyfiawnder troseddol os caiff y rhain eu datganoli i Gymru. Mae'n bosibl y gallai hyn leihau costau, gan na fyddai angen sefydlu nifer o wahanol sefydliadau, a chynnig dull gweithredu cyfannol ar gyfer nodweddion unigryw system cyfiawnder troseddol Gymreig. Er hyn, nid yw'n ymddangos yn debygol y byddai casgliad yr un mor helaeth o swyddogaethau

cyfiawnder troseddol yn cael eu datganoli i Gymru ar y cyd â phrawf, sy'n golygu y byddai'n llai dichonadwy i sicrhau arbedion maint o'r fath, a gallai hynny arwain at fwy o wariant yn y tymor byr i ganolog.

Lle bo'r gwasanaeth prawf yn ffurfio rhan o'r gwasanaeth sifil yn Ewrop, mae cyllid a mecanweithiau atebolrwydd yn aml ar ffurf adroddiadau chwarterol neu flynyddol a ddarperir i un o weinidogion y cabinet sydd â chyfrifoldeb am y gwasanaeth prawf (ac fel arfer am swyddogaethau cyfiawnder eraill hefyd). Mae lefelau amrywiol o gydgynghyrchu a mewnbwn gan y gwasanaeth prawf er mwyn cytuno ar amcanion.

Cyllid

Mae strwythurau amrywiol yn bodoli ar gyfer cyllido gwasanaethau prawf ledled Ewrop. Yn yr Alban, lle darperir prawf gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, caiff cyllid ei glustnodi a'i ddyrannu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol. Mewn gwrthgyferbyniad, mae llawer o strwythurau unedol yn cael eu hariannu drwy grant gan un o adrannau'r llywodraeth, y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu adran gyfatebol fel arfer. Yng Ngogledd Iwerddon, lle nad yw PBNl yn cael ei ystyried yn rhan o'r gwasanaeth sifil, mae'r dyraniad cyllid ar gyfer costau megis adeiladau hefyd, ac nid yw'n canolbwyntio'n bennaf ar staff a darparu gwasanaethau. Mae hyn hefyd yn golygu bod y gwasanaeth prawf yng Ngogledd Iwerddon yn gorfod cystadlu â gwasanaethau eraill am gynnydd yn y gyllideb, ac nad yw'n gallu gorwario.

Mae gwasanaethau prawf ledled Ewrop wedi cael eu heffeithio gan fesurau cyni yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan effeithio ar lwyth gwaith a morâl y gweithlu mewn llawer o wledydd, yn ogystal â'r cyllid sydd ar gael i gomisiynu sefydliadau cymunedol i ddarparu rhaglenni a mentrau. Yn y Ffindir, arweiniodd yr awydd i leihau costau a chynyddu effeithlonrwydd drwy ddileu dyblygu mewn rolau rheolaethol a gweinyddol at ad-drefniad cynhwysfawr o'r gwasanaeth prawf. Pwysleisiwyd awydd tebyg i weld llai o ddyblygu yn yr Alban a'r Iseldiroedd (er nad oes camau wedi'u cymryd yno). Yng Ngwlad Belg, mynegodd y rhai a gyfwelwyd bryder ynglŷn â'r risg gynhenid o ddyblygu sy'n cael ei hachosi gan ddatganoli, ac effaith hynny ar wariant y llywodraeth. Fodd bynnag, gall perthnasoedd da â gwasanaethau prawf datganoledig eraill helpu i leihau rhai costau drwy contractau caffael ar y cyd ar gyfer buddiannau a rennir, a nodir cyfarpar monitro electronig a systemau TG fel meysydd ar gyfer arbedion posibl. O ganlyniad, rhaid i gynllunio ar gyfer datganoli ystyried yn drylwyr sut i leihau dyblygu a'i effeithiau ar wariant.

hyngweithio â phwerau a gadwyd yn ôl

Mewn llawer o wledydd Ewropeaidd lle nad yw'r gwasanaeth prawf wedi'i ddatganoli, mae trefniadau ffurfiol yn amlinellu sut y bydd y gwasanaeth prawf yn cydweithio ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill, yn aml mewn deddfwriaeth neu ganllawiau

statudol. Ymddengys bod hyn wedi bod yn effeithiol yn yr Iseldiroedd a Slofenia. Roedd diwygiadau i'r system brawf yn Nenmarc yn ystod y degawd diwethaf hefyd yn ceisio annog mwy o gydweithio lleol rhwng carchardai a'r system brawf, gan nad oedd y berthynas wedi bod yn effeithiol iawn cyn hynny. Drwy sefydlu rolau, cyfrifoldebau, a dulliau cydweithredu clir, ynghyd â phrotocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth a fforymau trafod cyffredin, roedd asiantaethau cyfiawnder troseddol yn gallu gweithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol.

Dywedodd y rhai a gyfwelwyd yng Ngwlad Belg fod dedfrydu, carchardai, a'r llysoedd yn parhau'n gyfrifoldeb i'r llywodraeth ffederal, ond bod prawf wedi'i ddatganoli, sy'n ei wneud yn achos perthnasol iawn i Gymru. Er y gellid dilyn dull gweithredu sy'n seiliedig ar ymatal, gweithredu penderfyniadau'r llysoedd a wnâi'r gwasanaeth prawf gan mwyaf, ac nid oedd ganddo lawer o ddylanwad arnynt. Fel mewn gwledydd eraill, gan gynnwys Slofenia, roedd meithrin hyder y farnwriaeth mewn system brawf newydd yn dibynnu llawer iawn ar berthnasoedd personol. Roedd y rhai a gyfwelwyd yn lwerddon hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd perthnasoedd gyda'r farnwriaeth ac yn tynnu sylw at arwyddocâd rhannu gwybodaeth a hyfforddiant wrth ddatblygu ymddiriedaeth. Yn yr Alban, roedd y rhai a gyfwelwyd yn pwysleisio'r anawsterau wrth geisio cydlynu systemau TG rhwng gwasanaethau prawf a'r llysoedd, ac yn amlygu pwysigrwydd cydlynu rhwng gwasanaethau datganoledig a rhwng gwasanaethau datganoledig a gwasanaethau a gadwyd yn ôl.

Materion trawsffiniol

Mae profiadau o'r Alban a Gogledd Iwerddon yn awgrymu bod trosglwyddo troseddwr sy'n dymuno symud rhwng gwledydd y DU tra bo ganddynt orchymyn prawf yn gymharol syml oherwydd deddfwriaeth gyfatebol. Rhwng Cymru a Lloegr, mae'r broses hon yn debygol o fod yn syml iawn gan fod deddfwriaeth gyfredol ar brawf fel math o ddedfryd yn bodoli ar sail Cymru a Lloegr ac yn debygol o fod felly yn y dyfodol hyd y gellir rhagweld. Mae cydweithrediad rhwng gwasanaethau prawf Iwerddon a Gogledd Iwerddon, yn canolbwyntio'n bennaf ar rannu gwybodaeth berthnasol ar gyfer adroddiadau cyn dedfrydu, a hefyd ar gael protocol wedi'i ddiffinio'n dda ar gyfer troseddwr sy'n dymuno symud rhwng gwledydd.

Os caiff prawf ei ddatganoli i Gymru, gallai'r her fwyaf fod yn gysylltiedig â throeddwr sy'n cael eu dedfrydu yn Lloegr ond yn cael eu carcharu yng Nghymru, ac fel arall, yn enwedig o ran protocolau ar gyfer rhyddhau. Mae'r sefyllfa hon yn unigryw ymhlith yr achosion a gyflwynwyd. Mae gwasanaeth prawf Lwcsembwrg yn parhau i oruchwyllo troseddwr sy'n cael eu dedfrydu yn Lwcsembwrg ac sy'n byw mewn gwlad gyfagos, os ydynt hefyd yn gweithio yn Lwcsembwrg. Ar gyfer y rhai sy'n byw yn agos at y ffin, mae'n bosibl na fydd angen trosglwyddiad bob amser, sy'n golygu y gellir goruchwyllo troseddwr yn yr awdurdodaeth berthnasol. Fodd bynnag,

gallai hyn fynd yn fwy cymhleth pan fydd rhai gwasanaethau datganoledig, megis gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau iechedd meddwl, yn cael eu cynnwys. O ganlyniad, er y gallai fod yn ddichonadwy i wasanaeth prawf Cymreig oruchwylio troseddwr sy'n byw ychydig yr ochr arall i'r ffin â Lloegr, ac fel arall, mae'n cadarnhau'r angen i ystyried trefniadau cydweithredu ffurfiol a'r angen i ystyried yr achosion llai cyffredin hyn o'r dechrau un.

Gweledigaeth hirdymor

Mae'r awydd i ddatganoli prawf yng Nghymru yn seiliedig yn rhannol ar yr awydd i newid ei egwyddorion a'i dulliau sylfaenol o reoli troseddwr tuag at ddull gweithredu sy'n seiliedig ar ymatal. Mae profiadau o Ogledd Iwerddon a Gwlad Belg yn awgrymu y gall datganoli gynnig cyfle i gefnu ar yr arferion presennol a newid diwylliant sefydliadol prawf, er bod risgiau gwirioneddol a sylweddol i hyn hefyd. Nod sefydlu Bwrdd Prawf Gogledd Iwerddon oedd cynyddu cefnogaeth gymunedol i'r system brawf y tu allan i'r llywodraeth, ac yng Ngwlad Belg, roedd datganoli, a oedd yn cael ei hybu gan reidrydd gwleidyddol i drosglwyddo grym i wahanol gymunedau Fflemeg, Ffrangeg, ac Almaeneg eu hiaith, yn rhoi cyfle i bob cymuned ddatblygu ei dull gweithredu ei hun. Yng Nghymru, mae Grŵp Datblygu'r Gwasanaeth Prawf yn amlinellu gweledigaeth sy'n canolbwyntio ar integreiddio gwerthoedd gwaith cymdeithasol traddodiadol â'r egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol sy'n gynhenid yn y sector cyhoeddus Cymreig ehangach (Deering et al., 2023). Bydd y graddau y gellir cyflawni'r weledigaeth hon yn ddibynnol ar yr opsiwn datganoli a ddewisir, er bod pob un o'r tri opsiwn a amlinellir yn Rhan 1 yn caniatáu rhywfaint o gynnydd tuag at hyn.

Mae mewnwelediadau o wledydd lle mae un corff cyffredin yn gyfrifol am garchardai a phrawf yn awgrymu y gall y gwasanaeth prawf gael ei lyncu gan garchardai o ganlyniad i wahaniaethau diwylliannol a'r ffaith fod mwy o ymwybyddiaeth o garchardai at ei gilydd, yn arwain at fwy o sylw gwleidyddol. Mae achos y Ffindir yn dangos ymdrech fwy llwyddiannus i uno; fodd bynnag, yn Nenmarc, mae prawf yn parhau'n eilradd at ei gilydd i garchardai, er ei fod wedi bod yn rhan o asiantaeth unedig am gyfnod estynedig. Gallai rhai mathau o ddatganoli symud oddi wrth fodel ar y cyd HMPPS, gan ganiatáu i brawf ddatblygu diwylliant a hunaniaeth ar wahân. Os bydd hyn neu ymdrechion eraill yn llwyddo i sefydlu delwedd gyhoeddus wahaniaethol o brawf, gallai hyn helpu i wella canfyddiadau'r cyhoedd, sicrhau mwy o hyder ymhlith dedfrydwyr, a mynd i'r afael â phroblemau recriwtio a chadw staff o bosibl.

Bydd llwyddiant unrhyw weledigaeth hirdymor yn dibynnu ar sefydlu hunaniaeth glir a gwahanol i'r gwasanaeth prawf yng Nghymru, ar wahân i'r corff y mae'n datblygu ohono. Bydd angen i unrhyw wasanaeth prawf datganoledig hefyd sefydlu diwylliant

cadarnhaol sy'n ennyn ymddiriedaeth dedfrydwyr, cymunedau, a staff, yn adeiladu perthnasoedd gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol, ac yn datblygu trefniadau gweithio adeiladol gyda gwasanaethau datganoledig.

Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi strwythur trefniadol a nodweddion gwahanol gwasanaethau prawf ledled Ewrop ac yn trafod goblygiadau posibl i strwythur gwasanaeth prawf Cymreig datganoledig yn y dyfodol.

Gallai datganoli roi cyfle i Gymru sicrhau newid sylfaenol i gynllun a gweithrediad ei system brawf, gan ei gwneud yn fwy ymatebol i anghenion lleol. Mae profiad rhyngwladol yn awgrymu bod datganoli yn un ffordd o gyflawni hyn, ond mae angen cydweithrediad rhwng gwahanol asiantaethau. Mae gan wasanaethau prawf yn Ewrop strwythurau amrywiol, pob un yn ganlyniad i hanesion, diwylliannau, a nodweddion eraill y gwledydd y maent yn gweithredu ynddynt. Rhaid i system brawf Gymreig gael ei chynllunio er mwyn adlewyrchu daearyddiaeth arbennig Cymru a gwerthoedd gwasanaethau cyhoeddus Cymru tra'n diwallu anghenion gwasanaethau cyhoeddus datganoledig ac annatganoledig amrywiol a rhanddeiliaid.

Mae profiadau o wledydd Ewropeaidd eraill lle mae prawf wedi'i ddatganoli yn awgrymu bod datganoli yn cynnig cyfle i sefydlu dulliau a gwerthoedd newydd sy'n berthynol i rhanddeiliaid lleol a chymunedau. O ystyried cyni ariannol y degawd diwethaf, mae cyllid wedi bod yn her mewn llawer o wledydd, gan beri i lawer ad-drefnu eu systemau prawf er mwyn lleihau gorbenion a chynyddu effeithlonrwydd. Gallai datganoli arwain at fwy o ddyblygu, sydd â goblygiadau o ran gwariant y llywodraeth, fel y gwelwyd wrth ddatganoli prawf mewn cyd-destunau fel Gwlad Belg a meysydd polisi eraill yn y DU, megis nawdd cymdeithasol yn yr Alban. Gallai lleihau dyblygu lle bo modd helpu i leihau costau, ond bydd angen rhoi sylw i gostau posibl yn y dyfodol mewn trafodaethau ynghylch llywodraethu rhanbarthol. Yn ychwanegol at hyn, bydd angen ystyried costau gweithlu tymor byr, o ganlyniad i gynnydd mewn llwyth achosion wrth i hyder mewn system brawf newydd gynyddu; ynghyd ag unrhyw gyllid ychwanegol i leihau'r pwysau presennol sy'n gysylltiedig â llwyth gwaith.

Pa bynnag fodel a ddewisir ar gyfer system brawf ddatganoledig, pwysleisiodd y rhai a gyfwelwyd bwysigrwydd cydweithio a chydweithredu rhyngwladol. Mae gan Gymru gyfle i ddysgu o brofiadau ac arferion gorau systemau prawf eraill yn Ewrop a thu hwnt, gan gynnwys y rhai sydd wedi cael eu datganoli yn ddiweddar. Mae Cydffederasiwn Prawf Ewrop yn hybu cydweithio ledled Ewrop a dysgu gwersi o wledydd eraill, a gallai aelodaeth alluogi Cymru i elwa o'r adnoddau hyn.

Cyfeiriadau

Audit Scotland (2011). **An overview of Scotland's criminal justice system.**

Cafwyd o: https://audit.scot/docs/central/2011/nr_110906_justice_overview.pdf

Bauwens, A., a Devos, A. (2018). **Probation in Europe: Belgium.** Confederation of European Probation. Cafwyd o: <https://www.cep-probation.org/wp-content/uploads/2018/10/Probation-in-Europe-Chapter-Belgium-final.pdf>

Bauwens, A., a Roose, R. (2017). **What is social about criminal justice social work in Belgium?** European Journal of Social Work, 20(5), tt.640-650.

Bisenius, C., Gosselin, S., Rodesch, S., a Kettel, C. (2021). **Probation in Europe: Luxembourg.** Confederation of European Probation. Cafwyd o: <https://www.cep-probation.org/wp-content/uploads/2021/07/Chapter-Luxembourg-final-version.pdf>

Borja, S., Feilzer, M., Field, S., Griffith, G., Hall, B., Heath, B., Maguire, M., a Williams, K. (2023). **Governance and Partnerships.** yn Probation Development Group (2023). Cafwyd o: <https://wccsj.ac.uk/en/publications/2024>

Buchan, J (2023). **Justice Social Work and the National Care Service.** The Scottish Centre for Crime & Justice Research. Cafwyd o: https://www.sccjr.ac.uk/news_item/justice-social-work-and-the-national-care-service/

Buchan, J., a Morrison, K. (2020). **Compromise, partnership, control: Community Justice Authorities in Scotland.** Criminology & Criminal Justice, 20(2), tt.226-243.

Commission on the UK's Future. (2022). **A New Britain: Renewing our democracy and rebuilding our economy.** Labour Party (UK). Cafwyd o: <https://labour.org.uk/wp-content/uploads/2022/12/Commission-on-the-UKs-Future.pdf>

Commission on Women Offenders (2012). **Commission on Women Offenders: Final Report.** Llywodraeth yr Alban. Cafwyd o: <https://webarchive.nrscotland.gov.uk/20170406001333/http://www.gov.scot/About/Review/commissiononwomenoffenders/finalreport-2012>

Confederation of European Probation (2018). **Summary information on probation in Switzerland.** Cafwyd o: <https://www.cep-probation.org/wp-content/uploads/2018/10/Summary2008-information-on-Switzerland.pdf>

Confederation of European Probation (2023). **“Dilemmas: Hard or Easy to Solve?” A conversation with the director general of Finnish probation.** Cafwyd o: https://www.youtube.com/watch?v=XNagRXov6pk&ab_channel=CEPProbation

Coyle, A., a Tombs, J. (2018). **Community Justice Scotland: The past, present and future.** Community Justice Scotland. Cafwyd o: https://communityjustice.scot/wp-content/uploads/2020/11/Community-Justice-Scotland-The-Past-Present-and-Future_Tombs-Jacqueline-Coyle-Andrew.pdf

Criminal Justice Inspection Northern Ireland (CJI) (2020). **An Inspection of the Probation Practice in Northern Ireland.** Cafwyd o: <https://www.cjini.org/TheInspections/Inspection-Reports/2020/October-December/Probation-Practice-in-Northern-Ireland>

Criminal Justice Inspection Northern Ireland (CJI) (d.d.). **About Us.** Cafwyd o: <https://www.cjini.org/AboutUs>

de Kok, M., Tigges, L., a van Kalmthout, A. (2020). **Probation in Europe: The Netherlands.** Confederation of European Probation. Cafwyd o: <https://www.cep-probation.org/wp-content/uploads/2021/07/Probation-in-Europe-the-Netherlands.pdf>

Deering J., Feilzer, M., McConnel, S., a Rabaiotti, E. (2023). **Values and Principles.** yn Probation Development Group (2023). Cafwyd o: <https://wccsj.ac.uk/en/publications/2024>

Devos, A. (2013). **Community Sanctions and Measures in Belgium: still in the shadow of the prison?** Council of Europe. Cafwyd o: <https://rm.coe.int/CoERMPublicCommonSearchServices/DisplayDCTMContent?documentId=09000016806f5086>

Donnellan, M., a McCaughey, B. (2010). **The Public Protection Advisory Group: A Model for Structured Co-operation.** Irish Probation Journal (7), tt.6-14.

Fink, D., a Bruni, H-U. (2013). **Probation in Europe: Switzerland.** Confederation of European Probation. Cafwyd o: <https://www.cep-probation.org/wp-content/uploads/2018/10/Probation-in-Europe-2013-Chapter-Switzerland.pdf>

Fulton, B., a Carr, N. (2013). **Probation in Europe : Northern Ireland.** Confederation of European Probation. Cafwyd o: <https://www.cep-probation.org/wp-content/uploads/2018/10/Probation-in-Europe-2013-Chapter-Northern-Ireland.pdf>

Grant, S., Buchan, J., ac O'Donnell, A. (2020). **Probation in Europe: Scotland**. Confederation of European Probation. Cafwyd o: <https://www.cep-probation.org/wp-content/uploads/2020/11/Scotland-chapter-final-version.pdf>

Health and Social Care Scotland (d.d.). **Integration**. Cafwyd o: <https://hscscotland.scot/integration/>

Hofinger, V., a Peschak, J. (2018). **Legalbiografien von NEUSTART KlientInnen II**. Institute for the Sociology of Law and Criminology. Cafwyd o: file:///C:/Users/GJNot/Downloads/legalbiografien_ii_endbericht.pdf

Hönig, M., a Heemskerk, I. (2019). **Flexibele bruggebouwer zoekt stevig fundament**. WODC. Cafwyd o: <https://repository.wodc.nl/handle/20.500.12832/2406>

Irish Department of Justice (2022). **Criminal Justice Co-operation**. Cafwyd o: <https://www.gov.ie/en/policy-information/e4ec3-criminal-justice-co-operation/>

Irish Probation Service (2023a). **An Introduction to Probation**. Cafwyd o: <https://www.gov.ie/en/publication/3a513-an-introduction-to-probation/>

Irish Probation Service (2023b). **Probation Service Annual Report 2022**. Cafwyd o: <https://www.gov.ie/en/publication/5a08e-probation-service-annual-report-2022/>

Irish Probation Service (2023c). **The Probation Service and the Community**. Cafwyd o: <https://www.gov.ie/en/publication/3c85b-the-probation-service-and-the-community/>

Irish Probation Service (2023d). **Probation Service: Performance Delivery Agreement 2023**. Cafwyd o: <https://www.gov.ie/en/collection/a1806-oversight-and-performance-delivery-agreements-2023/>

Jacobs, P., a van Kampen, P. (2014). **Dutch 'ZSM Settlements' in the Face of Procedural Justice: The Sooner the Better?** Utrecht Law Review, 10(4), tt.73-85.

Jeunejean, T. (2019). **Pourquoi des Maisons de justice?** Justice-en-ligne. Cafwyd o: <https://www.justice-en-ligne.be/Pourquoi-des-Maisons-de-justice>

Johcoms, T., Quint H., Horton K., Jacobs, G., a Bayerl, S. (2012). **United Under One Roof: Safety Houses in the Netherlands** yn Graham, L.N., Betteridge, K.A., Casey, R., a van Witteloostuijn, A. (gol.) Best Practices in European Policing: A Selection of Case Studies. Durham: Prifysgol Durham, tt. 77-92.

Justice Trends (2018). **The untouchable social work principles of the Wallonia-Brussels Federation probation system.** Cafwyd o: <https://justice-trends.press/the-untouchable-social-work-principles-of-the-wallonia-brussels-federation-probation-system/>

Justice Trends (2019). **From plan to action: the recent probation service of Slovenia.** Cafwyd o: <https://justice-trends.press/from-plan-to-action-the-recent-probation-service-of-slovenia/>

Koss, C., a Grafl, C. (2013). **Probation in Europe: Austria.** Confederation of European Probation. Cafwyd o: <https://www.cep-probation.org/wp-content/uploads/2018/10/Probation-in-Europe-2013-Chapter-Austria.pdf>

Linderborg, H., Tolvanen, M.J., ac Andersson, P. (2020). **Probation in Europe: Finland.** Cafwyd o: <https://www.cep-probation.org/wp-content/uploads/2021/07/Probation-in-Europe-chapter-Finland-2020.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2022). **Sicrhau Cyfiawnder i Gymru.** Cafwyd o <https://www.llyw.cymru/sicrhau-cyfiawnder-i-gymru>

Llywodraeth Cymru. (2024). **Sicrhau Cyfiawnder i Gymru: adroddiad cynnydd 2024.** Cafwyd o <https://www.llyw.cymru/sicrhau-cyfiawnder-i-gymru-adroddiad-cynnydd-2024-html>

Ministère de la Justice du Luxembourg (2024). **Rapport d'activité 2023.** Cafwyd o: <https://gouvernement.lu/fr/publications/rapport-activite/minist-justice/mjust/2023-rapport-activite-justice.html>

Morrison, K. (2015). **The management of community justice services in Scotland: Policy-making and the dynamics of central and local control.** Yn: Wasik, M., a Santatzoglou, S (gol.), The Management of Change in Criminal Justice: Who Knows Best? Houndmills: Palgrave Macmillan, tt.152-169.

Mrhar Prelić, D. (2022). **Probation in Slovenia: 'In the Right Direction'.** Irish Probation Journal, 19, tt.56-73.

NEUSTART (2023). **Unser Verein.** Cafwyd o: <https://www.neustart.at/wer-wir-sind/verein/>

Novak (2008). **Probation in Europe: Slovenia.** Confederation of European Probation. Cafwyd o: <https://www.cep-probation.org/wp-content/uploads/2018/10/2008Slovenia.pdf>

Ormston, R., Diaz, A., Millar, C., a Simpson, E. (2024). **National Care Service: Justice Social Work Research**. Llywodraeth yr Alban. Cafwyd o: <https://www.gov.scot/publications/national-care-service-justice-social-work-research/documents/>

Parlement de la Communauté Française (2023). **Project de Décret: Introduisant le code de la justice Communautaire**. Cafwyd o: <https://archive.pfwb.be/1000000020d603a>

Ploeg, G. a Sandlie, J. (2011). Mapping probation futures: Norway. Probation Journal Cyfrol 58(4): 386-394
<https://journals.sagepub.com/doi/full/10.1177/0264550511427931?journalCode=prbb>

Price, J., Notman, G., a Tilley, H. **Adeiladu gwasanaeth prawf Cymreig: Rhan 1: Modelau a llwybrau**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prison and Probation Service of Finland. (2022). **Organisation reform improves the effectiveness of the Prison and Probation Service**. Cafwyd o: <https://www.rikosseuraamus.fi/en/index/topical/pressreleasesandnews/2022/organisationreformimprovestheeffectivenessofthepreisonandprobationservice.html#>

Prison and Probation Service of Finland. (2023). **History**. Cafwyd o: <https://www.rikosseuraamus.fi/en/index/criminalsanctionsagency/history.html#>

Prison and Probation Service of Finland. (2024). **Lappeenranta Branch Office of Southeast Probation Office moves to Lappeenranta Joint Service Point**. Cafwyd o: <https://www.rikosseuraamus.fi/en/index/topical/pressreleasesandnews/2024/lappeenrantabranchofficeofsoutheastprobationofficemovestolappeenrantajointservicepoint.html>

Probation Board for Northern Ireland (2023). **Corporate Plan 2023-26**. Cafwyd o: <https://www.pbni.org.uk/publication/corporate-plan-2023-26>

Probation Development Group. (2023). **Towards a devolved probation service in Wales**. Canolfan Troseddau a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru. Cafwyd o: <https://wccsj.ac.uk/en/publications/2024>

Reclassering Nederland (d.d.). **ZSM**. Cafwyd o: <https://www.reclassering.nl/samenwerken-met-de-reclassering/zsm>

Rentzmann, W. (2011). **Working together to promote the Social Reintegration of Prisoners – what does that mean?** 16th Conference of Directors of Prison Administrations and Directors of Probation Services. Council of Europe. Cafwyd o: <https://rm.coe.int/CoERMPublicCommonSearchServices/DisplayDCTMContent?documentId=09000016806f54e4>

Retsinformation (2023). **Bekendtgørelse om kriminalforsorgsområder under Direktoratet for Kriminalforsorgen.** Cafwyd o: <https://www.retsinformation.dk/eli/lta/2023/1506>

Rigsrevisionen (2011). **Extract from the report to the Public Accounts Committee on the initiatives implemented by the Danish Prison and Probation Service to reduce reoffending.** Cafwyd o: [https://www.uk.rigsrevisionen.dk/Media/C/D/10-2010%20\(2\).pdf](https://www.uk.rigsrevisionen.dk/Media/C/D/10-2010%20(2).pdf)

Rikosseuraamuslaitos (2024). **Financial statement and activity report of the Criminal Sanctions Office from 2023.** Cafwyd o: <https://www.rikosseuraamus.fi/fi/index/ajankohtaista/julkaisut/monisteetjaraportit.html>

Salet, R., a Terpstra, J. (2020). **Criminal justice as a production line: ASAP and the mangerialization of criminal justice in the Netherlands.** European Journal of Criminology, 17(6), tt.826-844.

Scottish Government (2016). **Guidance for Local Partners in the New Model for Community Justice.** Cafwyd o: <https://www.gov.scot/publications/guidance-local-partners-new-model-community-justice/>

Scottish Social Services Council (2024). **SSSC Codes of Practice for Social Service Workers and Employers 2024.** Cafwyd o: <https://www.sssc.uk.com/knowledgebase/article/KA-02412/en-us>

Storgaard, A., a Skov, L. (2017). **Probation in Europe: Denmark.** Confederation of European Probation. Cafwyd o: <https://www.cep-probation.org/wp-content/uploads/2018/10/probation-in-europe-denmark.pdf>

Tweede Kamer der Staten-Generaal (2014). **Reclasseringsbeleid.** Cafwyd o: <https://zoek.officielebekendmakingen.nl/kst-29270-93.pdf>

Urwyler, C. (2020). **Fachliche Standards der Bewährungshilfe: eine Bestandesaufnahme.** Swiss Competence Centre for Criminal Sanctions. Cafwyd o: <https://www.skjv.ch/de/unsere-themen/wiedereingliederung-und-rueckfallpraevention/grundlagen-der-bewaehrungshilfe>

Urwyler, C., Gabaglio, S., a Rüfenacht, M. (2024). **Grundlagen: Schweizerische Empfehlungen Für Die Bewährungshilfe.** Swiss Competence Centre for Criminal Sanctions. Cafwyd o: <https://www.skjv.ch/de/unsere-themen/wiedereingliederung-und-rueckfallpraevention/grundlagen-der-bewaehrungshilfe>

Uzieblo, K. (2023). **Implementing Evidence-Based Risk Assessment and Management Strategies in Flemish Probation and Parole Services: Opportunities and Challenges.** Confederation of European Probation. Cafwyd o: <https://www.cep-probation.org/webinar-on-risk-and-needs-assessment-in-probation/>

Van Dijk, J.J.M., a De Waard, J. (2009). **Forty years of crime prevention in the Dutch polder** in Crawford, A (gol.) Crime Prevention Policies in Comparative Perspective. Llundain: Willan, tt.130-152.

Vesterbacka, E. (2014). **Opening Speeches: 19th Conference of Prison and Probation Services.** Council of Europe. Cafwyd o: <https://rm.coe.int/CoERMPublicCommonSearchServices/DisplayDCTMContent?documentId=09000016806f4556>

Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. (2019). **Cyfiawnder yng Nghymru dros bobl Cymru.** Cafwyd o: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/Justice%20Commission%20WEL%20DIGITAL.pdf>

Manylion yr Awduron

Greg Notman, Swyddog Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Dr Jack Price, Cydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Dr Helen Tilley, Uwch Gymrawd Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Jack Price

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

info@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored